

ECO'R WYDDFA

RHIF 288

EBRILL 2002

PRIS 40c

Rygarug



Plant Rygarug yn perfformio mewn Cyngerdd diweddar ym Mhenisarwaun.
(Mwy o luniau a'r dudalen 18)

Noson Wobrwyo Antur Waunfawr

Cafodd gweithwyr cydwybodol Antur Waunfawr eu cymeradwyo am eu gwaith caled a dygn mewn noson wobrwyo arbennig iawn nos Iau diwethaf. Roedd y 23 o weithwyr wedi derbyn hyfforddiant mewn gwaith drwy Brosiect Abl i Waith a drefnwyd ar y cyd gyda phartneriaeth Antur Waunfawr, Menter Fachwen, Manton a Phlas y Coed. Roedd pawb wedi llwyddo yn eu cyrsiau penodedig ac yn derbyn tystysgrifau Rhwydwaith Coleg Agored Gogledd Cymru.

Roedd y seremoni, a gynhaliwyd yn Stiwdio Barcud drwy garedigrwydd Barcud a chwmni Cainc, yn gyfle i roi cydnabyddiaeth gyhoeddus i'r gweithwyr, ac i ddiolch iddynt am eu gwaith gydol y flwyddyn, yn ogystal a'u llwyddiant gyda Phrosiect Abl i Waith. Cyflwynwyd y tystysgrifau iddynt gan Non Williams, cyfarwyddwraig Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd, a ddywedodd fod y noson yn gyfle i dalu clod i waith caled a chyfraniad gwerthfawr y gweithwyr i'r gymuned.

Yn arwain y noson roedd y gyflwynwraig deledu Daloni Metcalfe, sy'n hen ffrind i griw'r Antur, a bu digon o hwyl a chwerthin wrth i ambell un ddwyn cusan ganddi tra'n mynd i'r llwyfan i dderbyn eu tystysgrifau.

Sefydlwyd Antur Waunfawr ym 1984 i gynig cyfleon i bobl ag anhawsterau dysgu i weithio a chyfrannu i'r gymdeithas. Erbyn heddiw mae'r Antur wedi datblygu yn dair safle - Waunfawr, Caernarfon a Bangor - a saith adran gwaith yn cynnwys siop grefftiau, caffi, ailgylechu, garddio ac ailgylechu dodrefn. Trwy Brosiect Abl i Waith mae'r gweithwyr yn cael hyfforddiant mewn gwaith ac yn dysgu sgiliau newydd. Derbyniwyd tystysgrifau nos Iau diwethaf am amryw o sgiliau yn cynnwys Manwerthu,



Glendid Bwyd, Derbyn Taliad a Rhoi Newid, Amgylchedd, Ailgylchu, Garddwriaeth - tyfu planhigion, Garddwriaeth - cyflwyniad i beiriannau torri gwair, Gwaith Coed a mwy.

Dyma'r ail noson wobrwyo o'r fath i'r Antur ei chynnal ac, yn ôl Dafydd Arfon Jones, eu Swyddog Addysg, mae'n bwysig fod gweithwyr yn cael y gyd-nabyddiaeth a chymwysterau am y gwaith y maent yn ei wneud. 'Mae'r gweithwyr a'u rheolwyr wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau fod pob agwedd o'r cwrs yn cael eu cwblhau,' meddai, 'ac mae pob un o'r gweithwyr wedi pasio. Mae'r noson wobrwyo yn gyfle i weithwyr a staff yr Antur ddathlu hefo'n gilydd ac yn gyfle i rieni neu warchodwyr ddod i'n cyfarfod a gweld y math o waith a hyfforddi sy'n digwydd yma.'

Wedi llwyddiant 2001 mae'r gweithwyr yn cdrych ymlaen i ddilyn cyrsiau newydd eleni. 'O ddal i ddilyn y cyrsiau pob blwyddyn, ddylia bod banc sgiliau y gweithwyr yn cynyddu,' meddai Dafydd Arfon Jones.

(Mwy o luniau ar dudalen 3)

Y 23 o weithwyr Antur Waunfawr a dderbyniodd dystysgrifau 'Abl i Waith' mewn noson wobrwyo a gynhaliwyd yn Stiwdio Barcud.

Dathlu Gŵyl Ddewi



Iola Bryn Jones, 5 oed o Llwydfryn, Deiliolen, yn cychwyn i Ysgol Gwaun Gynfi ar Fawrth y cyntaf.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 288
EBRILL**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cyfni Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TRERFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Ellis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (850788)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Yfaunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, EBRILL 22

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MAI 2

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu a
Mai Mehefin Gorffennaf Awst Medi Hydref Tachwedd Rhagfyr	Ebrill 22 Mai 20 Mehefin 10 Awst 19 Medi 16 Hydref 21 Tachwedd 18	Mai 2 Mai 30 Mehefin 20 Awst 29 Medi 26 Hydref 31 Tachwedd 28	Deiniolen Brynrefail Bethel Dinorwig Penisarwaun Llanberis Caeathro	Mr W. O. Williams Mrs Dilys W. Morris Mr Geraint Ellis Miss Marian Jones Mrs Ann Evans Mr Gwilym Evans Mr Clive James

Llythyrau

Talgarreg
85 Ffordd Carneddi
Bethesda

Cylch yr Iaith

Annwyl Olygydd,
Mae'r chwyldro cyfoes mewn
cyfathrebu yn golygu
newidiadau enfawr a phell-
gyrhaeddol gAnnwyl Olygydd

Ffair Lyfrau 'Y Casglwr'
Dim ond gair byr i hysbysu'ch
darllenwyr bod Cymdeithas
Bob Owen yn cynnal Ffair
Lyfrau Ail-Law a Hynafiaethol
yn Ysgol Penweddig, Ffordd
Llanbadarn, Aberystwyth ar
ddydd Sadwrn, 27 Ebrill eleni, o
10 y bore tan 4 y prynhawn.
Agorir y ffair gan y Dr. R.
Geraint Gruffydd.

Bydd miloedd ar filoedd o
lyfrau o ddiddordeb Cymreig ar
werth, gan gynnwys llyfrau
hanes, hanes lleol a
llynyddiaeth. Hefyd bydd cyfle i
brynu hen fapiau a phrintiadau.
Punt yw'r tâl mynediad ac am
hynny mi gewch banded o
de/coffi a sawl bagen dwi'n
siwr. Mae 'na ddigonedd o le
parcio, felly dewch i brofi
diwrnod o wanwyn yn
Aberystwyth.

Os hoffech fwy o fanylion
mae croesi i chi gysylltu â mi -
(01970) 623174.

Yn gywir
Gwyn Tudurda datblygiadau
megis y rhyngwyd a mynediad
digidol. Er mwyn ymateb i'r
newidiadau hyn mae'r
llywodraeth yn Llundain
wrthi'n cyflwyno mesurau
seneddol ar reoleiddio
cyfathrebu.

Yn y Papur Gwyn sydd ar ei
daith drwy'r senedd ar hyn o
bryd mae'r llywodraeth yn
argymhell bod un corff, sef
Ofcom, yn disodli rhai o'r cyrff
presennol sy'n gyfrifol am
reoleiddio cyfathrebu. Byddai'r
un corff hwn yn eithriadol o
bwerus, a'i ddylanwad yn fawr.
Byddai ei benderfyniadau'n
effeithio ar holl elfennau
cyfathrebu - radio, tledu a'r
rhyngwyd.

Eisoes mae'r llywodraeth
wedi anwybyddu cais y
Cynulliad am gael aelod
Cymreig ar Ofcom, ac felly mae
pryder na fydd darpariaeth

statudol i'r Gymraeg o fewn y
drefn newydd.

Barn Cylch yr Iaith, wedi
derbyn cyngor arbenigol, yw y
dylai Ofcom, o'i sefydlu, orfod
ymgynghori gyda chorff â
chyfrifoldeb neilltuol dros
amddiffyn buddiannau'r iaith
Gymraeg mewn cyfathrebu.
Dyletswydd corff o'r fath fyddai
sicrhau mynediad llawn,
cyfleusterau priodol ac
adnoddau digonol i'r Gymraeg
ym mhob agwedd ar gyfathrebu.

Mae Cylch yr Iaith wedi
anfon at y gwleidyddion yng
Nghaerdydd a Llundain yn
galw arnynt i bwyso ar y
llywodraeth i sicrhau y bydd y
ddeddf newydd yn diogelu'r
Gymraeg drwy greu corff
penodol i warchod
buddiannau'r iaith a'r
diwylliant Cymraeg.

Yn gywir
Ieuan Wyn

Cae Llenor
Lôn Parc
Caernarfon

Annwyl Ddarllenwyr
Ydach chi'n dda am lanhaus,
neu'n adnabod rhywun sy'n dda
am lanhaus? Oes ganddoch chi
ddynes neu ddyn 'llnau? Pa mor
werthfawr ydyn nhw i chi?
Ydych chi'n gweithio i
asiantaeth 'llnau, yn mynd allan
i 'llnau neu'n rhedeg busnes
glanhau? Oes ganddoch chi
gyngor ar sut i lanhaus -
cyfrinachau y byddech chi'n
fodlon eu datgelu?

Mae Cwmni Da yn chwilio
am gyfrannwyr i 'Mopio'n Lân',

rhaglen ddogfen ar y pwnc,
glanhau!

Os ydych chi'n 'nabod
rhywun sy'n wych neu'n
anobeithiol am lanhaus, rhowch
wybod i ni.

Rhif ffôn: (01286) 685300
neu e-bost: heledd@cwmnida.
co.uk. Gan edrych ymlaen i
glywed gennych.

Yn gywir
Heledd Lewis
Ymchwilydd

Annwyl Olygydd

Ffair Lyfrau 'Y Casglwr'
Dim ond gair byr i hysbysu'ch
darllenwyr bod Cymdeithas
Bob Owen yn cynnal Ffair
Lyfrau Ail-Law a Hynafiaethol
yn Ysgol Penweddig, Ffordd
Llanbadarn, Aberystwyth ar
ddydd Sadwrn, 27 Ebrill eleni, o
10 y bore tan 4 y prynhawn.
Agorir y ffair gan y Dr. R.
Geraint Gruffydd.

Bydd miloedd ar filoedd o
lyfrau o ddiddordeb Cymreig ar
werth, gan gynnwys llyfrau
hanes, hanes lleol a
llynyddiaeth. Hefyd bydd cyfle i
brynu hen fapiau a phrintiadau.
Punt yw'r tâl mynediad ac am
hynny mi gewch banded o
de/coffi a sawl bagen dwi'n
siwr. Mae 'na ddigonedd o le
parcio, felly dewch i brofi
diwrnod o wanwyn yn
Aberystwyth.

Os hoffech fwy o fanylion
mae croesi i chi gysylltu â mi -
(01970) 623174.

Yn gywir
Gwyn Tudur

Cefnogwch ein Hysbysebwyrr

CEIROPODYDD

Mrs S. Groom MSSCh, MBChA
Yn ymweld â'ch Cartref i drin traed

Triniaeth ar gyfer:

Traed Poenus; Croen Caled; Verrucae; Cynr a Chroen Caled;
Ewinedd yn tyfu i'r byw; Torri Ewinedd; Gofal a Thyliino Traed.

Ffôn: (01248) 605450 neu

07747 696267 (symudol)



CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONTWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

Noson Wobrwyo Antur Waunfawr



Non Williams, Cyfarwyddwraig Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn cyflwyno tystysgrifau i weithwyr Adran Garddio Antur Waunfawr: Llion Wyn Roberts, Llanrug; Gwion Davies, Caernarfon a Dylan Jones, Llanberis yng nghwmni Daloni Metcalfe a arweiniodd y noson, a Roy Jones, Rheolwr yr Adran.



Llion Wyn Roberts o Lanrug yn dangos ei dystysgrif yn falch i Heulwen Huws o'r Antur a dwy wirfoddolwraig o dramor sy'n gweithio yn yr Antur.

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Gwahoddir ceisiadau am swydd
Clerc i'r Cyngor

Disgwylir i'r Clerc ymwneud â holl weinyddiaeth y Cyngor a chofnodi penderfyniadau'r cyfarfodydd a gynhelir unwaith y mis fel arfer.

Bydd y Clerc yn gweithio o'r cartref a thelir cyflog am 32½ awr y mis ynghyd â chostau teliffon, stampiau, papur, teithio ayyb. Mae cyfrifiadur ac argraffydd ar gael i helpu gyda'r gwaith os oes angen.

Anfoner ceisiadau trwy lythyr erbyn 6 Ebrill 2002 i'r
Gadeirydd, Mr **Goronwy Hughes**,
14 Afon Rhos, Llanrug, Caernarfon LL55 4SE
Rhif ffôn: (01286) 674839.

Angen Enw i'r Caffi

Menter Fachwen, sy'n rhedeg busnesau yn y gymuned, wedi agor Caffi yn Y Sefydliad Coffa yn Llanrug. Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd y Caffi ar agor rhwng 10 y bore a 3 o'r gloch y prynhawn ar ddyddiau Llun, Mercher a Iau. Bwriedir agor y Caffi am bum niwrnod o ganol fis Mai ymlaen. Mae'r Fenter yn awyddus i ddewis enw ar gyfer y Caffi, ac yn gofyn am gymorth dartllenwyr yr Eco.

Cynigir gwobr o barti/tê bach i grwp o 6 o bobl neu blant i'r person sy'n anfon yr enw a ddyfernir yn fuddugol. Anfonwch eich cynigion erbyn 20 Ebrill, os gwelwch yn dda gan gofio nodi eich enw, cyfeiriad a rhif ffôn efo'r cynnig at: Cystadleuaeth Caffi, Menter Fachwen, Cwm-y-glo, Caernarfon, LL55 4DT, neu e-bostiwch: gareth@menterfachwen.co.uk

Teithiau Bysus am Ddim

Am y tro cyntaf erioed, mae Cyngor Gwynedd yn cyflwyno tocyn bws fydd yn galluogi merched dros 60 a dynion dros 65 i deithio ar wasanaethau bysus ledled Cymru am ddim (nid yw gwasanaethau bysus cyflym yn rhan o'r cynllun).

Bydd y rhai sydd â thocyn eisoes yn cael llythyr gyda ffurflen i roi llun arni; mae label i'w ddychwelyd hefyd wedi ei gynnwys. Bydd y tocynnau

newydd yn cael eu gyrru allan drwy'r post toc. Os am wneud cais o'r newydd, medrwyd ffônio Cyngor Gwynedd i ofyn am ffurflen (01286) 672255).

Gall ymgeiswyr newydd hefyd godi ffurflen gais yn eu swyddfa arian agosaf.

Does dim tâl am y tocynnau, ond fe fydd yn rhaid i ymgeiswyr roi llun o faint a math pasbort.

Dylan Griffith

**TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN**

Yn gwasanaethu'r holl ardal, yn cynnwys:

PENISARWAUN, DEINIOLLEN, LLANRUG A LLANBERIS

Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.

24 awr y dydd

Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**

Symudol: **07778 127394**

HEFYD



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Gwahoddir ymholiadau gan gontractwyr
am y gwaith canlynol:

1. Peintio waliau a nenfwd Amgueddfa T. Rowland Hughes yn 'Angonrfa', Llanberis.
2. Gosod ffens ar derfyn rhan o Gae Chwarae Frondeg, Llanberis.
3. Torri gwair a thacluso Mynwent Nantperis am y flwyddyn nesaf.

Gellir cael mwy o wybodaeth trwy gysylltu â'r

Clerc, Dafydd Whiteside Thomas,
'Bron y Nant', Llanrug, Caernarfon.

Ffôn: (01286) 673515

O SIAMBAR SELWYN

Teithio yn ôl o'r Alban yr oeddwn i ar Ddydd Gŵyl Dewi eleni, wedi treulio ychydig ddyddiau yn yr eira yn ardal Inverness. Mae Gŵyl Ddewi bob blwyddyn yn dod ag atgofion trist i mi. Ar Fawrth y cyntaf 1950 roeddwn i'n claddu Nhad, ac yntau ond yn 52 mlwydd oed. Ar yr un dyddiad 26 mlynedd yn ddiweddarach, bu farw Mam.

Dysgu yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis yr oeddwn i ar Fawrth y cyntaf 1976 ac yn sôn wrth y plant am yr hen ddywediad: 'Os daw Mawrth i mewn fel oen, fe aiff allan fel llew.' Oedd, roedd hi'n fore tawel, heulog a Mawrth yn prancio i'n plith fel oenig. Cefais alwad i fynd adre i Fethel ar frys, a phrin cyrraedd wnes i cyn i Mam roi ei hanadl olaf. Diflannodd yr oen a daeth Mawrth i mewn fel llew i mi ar y bore heulog hwnnw, Mawrth 1 1976.

Ond diwrnod i ddathlu ydi dydd gŵyl ein nawddsant i ni, ac mae'n arferiad gennym fynd fel cymdeithasau, i swpera. Fe ges innau wahoddiad i un neu ddau o lefydd hefyd. Un man, lle bûm i yno droeon, ac un lle na fûm i erioed yno.

Oeddwn, roeddwn i wedi pasio heibio'r arwydd sawl tro, ac mi roeddwn i wedi clywed am y lle, ac yn wir wedi dychmygu sut le oedd yno. Ydi, mae o'n bentre enwog a chan fy mod i dros y blynyddoedd wedi ymwneud â dwsinau o ganghennau Merched y Wawr roeddwn i'n edrych ymlaen at gael y cyfle i ymweld â'r pentre lle siglwyd crud y mudiad, rai blynyddoedd yn ôl bellach. Ia, pentre bach Y Parc, ger y Bala. Y pentre lle cafodd Sulwen a Zonia Bowen y weledigaeth o sefydlu Merched y Wawr. Roeddwn i'n falch o weld Sulwen yn y cyfarfod. Roedd merched y Parc wedi estyn gwahoddiad i aelodau o ganghennau Llangwm a Llandrillo i ddod yno i gyd-ddathlu hefo nhw. Fe gafwyd noson hwyliog.

Ches i erioed gawl ceinnin mor flasus. Yn wir roedd hi'n

anodd dweud rhyw air ar ôl bwyta cymaint. Wna i ddim anghofio'r croeso a gefais yn yr ysgol fach lle ganwyd y mudiad sawl blwyddyn yn ôl. Saith o blant sydd yn ysgol fach y Parc heddiw, a'r saith yn Gymry bach. Ys gwn i a fydd 'na rai ohonyn nhw yn aelodau o Ferched y Wawr ymhen blynyddoedd?

Roeddwn i'n hen gyfarwydd â'r lle arall y ces i wahoddiad iddo. Yn wir, roeddwn i wedi treulio blynyddoedd cynnar fy oes o fewn muriau'r lle hwn ac mae saith deg o flynyddoedd wedi diflannu ers i mi fynd yno gynta Ia, fy hen ysgol - Ysgol Bethel, lle cawsom wahoddiad fel Clwb Bro Bethel i gael te, a chael gwrando ar gyngerdd gan y plant.

Sôn am dalentau. O'r rhai lleiaf i'r hynaf. Dwi'n gwybod fawr ddim am ganu, ond mi wyddwn i fod côr plant yr ysgol yn canu'n fendigedig. Oes mae 'na fand yn Ysgol Bethel heddiw. Yr unig fand yno ddeng mlynedd a thrigain yn ôl oedd rubber band. Do mi ges i bnawn difyr yng nghwmni plant fy hen ysgol. Chwarae teg, mi fydda i yn cael gwahoddiad i fynd yno yn flynyddol i'r cyfarfod ffarwelio, (neu y cyfarfod gwobrwyo) bob mis Gorffennaf, ac mi fydda i'n gwerthfawrogi'r gwahoddiad hwn yn fawr.

Mi fûm i'n sbecian rownd y gornel. Na, doedd y sied lle bu Huw Cefn Rhyd a minnau yn dychmygu ein hunain fel Tommy Farr a Joe Louis ddim yno. Huw, fel Tommy Farr enillodd y ffeith honno. Na, mae'r sied a fu'n Ynakee Stadium am un pnawn wedi mynd. Mae Huw wedi'n gadael ni hefyd.

Cyn mynd adre fedrwn i

ddim peidio ag ymuno â'r hogia yn y gêm bêl-droed ar iard yr ysgol. Yr iard a fu'n Wembli, Maine Road a Goodison Park i mi a 'nghyfoedion yn nyddiau ein plentyndod. O ia, Everton a Manchester City (hefo Frank Swift yn y gôl) oedd y timau yr adeg honno. Doedd Lerpwl na thîm Old Trafford ddim yn agos i'r brig.

Ar ôl cic neu ddwy roeddwn i allan o wynt a doedd 'na neb ar y Spion Kop ar wal Blaen Rhos yn bloeddion 'Cym on Stan'.

Oedd, roedd o'n arwr i mi, fel y mae Giggs a Beckham yn arwyr i blant heddiw. Ond mi roedd Stanley Matthews yn arwr go iawn. Chafodd o rioed gerdyn coch na melyn, a chafodd o rioed fwy na deuddeg punt o gyflog yr wythnos chwaith.

Ydw, rydw i'n dal i gofio'r floedd 'Cym on, Stan'. Ia, fi oedd Mathews yn nhîm yr ysgol fach ers talwm yn nyddiau aur fy mhentyndod.

Diolch am gael dathlu Gŵyl Ddewi yn Ysgol y Parc ger y Bala, ac yn fy hen ysgol ym Methel.

CEUNANT

SWYDD NEWYDD. Llongyfarchiadau i Arwel Llywelyn Thomas, Arwelfa, Ceunant ar ei benodiad diweddar i swydd gyda'r Parc Cenedlaethol. Pob hwyl yn y swydd newydd!

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy

EMYR JONES

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

Wavell Roberts

CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

antur WAUNFAWR

Cynllun Dodrefn

Mae'r Cynllun yn brin o gyfraniadau nwyddau trydanol, yn arbennig poptai, oergelloedd, peiriannau golchi a rhewgelloedd fyddai'n addas i'w cleientau ar incwm isel

Gwasanaeth casglu rhad ac am ddim

01286 674 155
www.anturwaunfawr.org



ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175

GWYLIAU CARTREF A THRAMOR

Gwmni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o redeg Pecynnau Gwylliau oll-gynhwysol

Fframia

Gwasanaeth Fframio Lluniau
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Un funud fach

GEM BERYG

"Chwarae peiriant fidio
Ar bawn dydd Sadwrn oer;
Bomiau'n disgyn ar fy mhen
Fel anghenfil lawr o'r lloer."

Dydy gemau fideo ddim be oeddan nhw yn yr hen ddyddiau pan ganai Bando am y 'Space Invaders'. Tua 1980 oedd hynny, a dim ond mewn arcêd gemau y gallech chi chwarae'r gêm. Ar y pryd roedd rhaid bodloni ar chwarae'r gêm fideo wreiddiol ar beiriannau cartref. Ac yr oedd honno'n gêm ryfeddol! Y cwbl oedd ar sgrin y teledu oedd dwy linell fer ac un dot. Rhyw gêm o denis oedd hi. Di-di... di-di... di-di... nôl a mlaen ar draws y sgrin. Wedi meistrolu rhywfaint ar y dechneg gallech hyd yn oed gyflymu cwrs y dot o'r naill ochr i'r llall. Ond roedd angen llygad a bysedd cyflym arnoch wedyn!

Mae'r gemau cyfrifiadurol wedi datblygu'n syfrdanol dros yr ugain mlynedd diwethaf. Erbyn hyn mae'r X-box yn y siopau i gystadlu yn erbyn y Playstation 2 a'r Nintendo a'r PC am arian a chlud y chwaraewyr gemau ifanc a hen. Mae'r gemau mor gyffrous, a'r llun a'r sŵn mor realistig wrth i'r chwaraewr rasio car neu chwarae pêl-droed neu ymladd rhyfel ar sgrin teledu'r lolfa neu'r stafell wely.

Mae'r dechnoleg wedi datblygu'n y modd mwyaf anhygoel. Ugain mlynedd yn ôl, fyddai neb wedi dychmygu y byddai modd chwarae'r fath gemau ar sgrin fechan yn y cartref. Ond fyddai neb chwaith wedi breuddwydio y byddai gemau cyfrifiadurol yn dod yn bethau mor bwysig yng ngolwg pobl. Mae'n nhw'n rhagweld er enghraifft y bydd y gemau hyn yn fuan iawn yn ddiwydiant llawer mwy na'r diwydiant cerddoriaeth. A dyna sydd mor drist. Mae pobl yn treulio oriau lawer yn chwarae gemau fideo, â llawer iawn ohonynt yn ddim ond ymladd a dinistrio a lladd. Byd y 'rhith-realiti' yw hwn, a phobl yn fodlon byw rhan fawr o'u bywydau yn ei ganol. Mae na fwy i fywyd na bodio botymau a syllu ar sgrin.

Mae'r gemau'n ddiffrwyd ac yn hwyl. Does dim gwadu ar hynny. Ond wrth ladd amser yn lladd gelynyddion dychymygol y sgrin mae yna beryg ein bod hefyd yn lladd pethau fel dychymyg ac ysbryd creadigol a sgwrs a chymdeithas. Pwy feddyliai y gallai dot a dau ddash arwain at hynny?

JOHN PRITCHARD

Lôn Las Peris

Bydd arddangosfeydd
o'r syniadau ynglyn ag
ymestyn y llwybr
beicio i'w gweld yng
nghanolfannau
pentrefi'r fro dros
wythnosau cyntaf Ebrill.

Os oes gennych
sylwadau, yna dowch i'r
Cyfarfod Cyhoeddus
yng Nghwm y Glo.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED.
Dathlwyd Gŵyl Ddewi nos Lun, 4 Mawrth gyda phryd ardderchog ym Mwyty Courtenays yng Nghaernarfon. Croesawodd y llywydd, Pat Jones gynrychiolaeth dda o'r aelodau i fwynhau'r wledd. Yn dilyn y pryd, hyfrydwch oedd gan y llywydd gyflwyno un o'r aelodau yn westai'r noson, sef Miss Alice Williams. Cafwyd awr o argraffiadau ganddi am ei thaith fis Hydref diwethaf fel aelod o Orsedd y Beirdd i Batagonia. Gyda thaith a oedd yn llawn o brofiadau niferus ac unigryw, llwyddodd i ddethol a disgrifio llawer o'r achlysuron bythgofiadwy mewn arddull fywiog a chartrefol. Diolchwyd yn ddiffuant iddi am drosglwyddo'r wefr oedd ynghlwm â'r profiadau hynny i bawb oedd yn bresennol gan Mrs Lowri Roberts Williams. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 15 Ebrill, yn Ysgol Gymunedol, Cwm-y-glo.

PEN-BLWYDD ARBENNIG.
Estynnwn ein llongyfarchiadau i Mrs Blodwen Evans, Cae Gwyddel ar ddatlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar 21 Mawrth. Ers nifer o flynyddoedd bellach nid yw wedi bod yn dda ei hiechyd ac yn cael gofal yng Nghartref Nyrso Penisarwaun. Anfonwn gofion a dymuniadau gorau pawb o'r pentrefwyr ati ar ben-blwydd arbennig iawn.

PWYLLGOR CYMUNEDOL.
Cyfarfu'r Pwyllgor yn y Ffestri nos Fawrth, 5 Mawrth. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Pat Larsen a Keith Brymer Jones. Yn absenoldeb yr olaf, llywyddwyd y cyfarfod gan Mr Gwyn Hefin Jones. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd nos Fawrth, 5 Chwefror gan Dr Ruth Dafydd a chafwyd trafodaeth adeiladol ar nifer o bwyntiau yn codi o'r cofnodion.

Yn dilyn estynnodd y llywydd groeso i Mr Geraint George i gyflwyno yr holiadur drafft a baratowyd ganddo ar gyfer ei ddosbarthu i bob aelod o'r gymuned. Yn dilyn sylwadau gan nifer helaeth o aelodau'r pwyllgor mabwysiadwyd ffurf derfynol yr holiadur a thalwyd diolch arbennig i Geraint George am ei arweiniad.

Bydd y cyfarfod nesaf yn y

Ffestri nos Fawrth, 26 Mawrth am 7 o'r gloch pryd y trefnir cynllun dosbarthu'r holiadur i holl gartrefi'r gymuned.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD.
Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn oedfaon mis Ebrill:

7: Parch Trefor Jones, Caernarfon am 5.30;

14: Mr J. O. Roberts, Bethesda am 5.30;

21: Parch Gwynfor Williams, Caernarfon am 5.30;

28: Mr W. Arfon Roberts, Pwllheli am 10.00.

CYMDEITHAS Y CAPEL. Daeth yn amser unwaith eto i gychwyn tymor newydd y Gymdeithas ac mae'r cyd-ysgrifenyddion, Eleanor Jones a Dwynwen Williams wedi bod yn ddiwyd yn trefnu rhaglen y tymor. Fel ac yn y gorffennol, cynhelir y cyfarfodydd yn y Ffestri am 7 o'r gloch ar yr ail nos lau o bob mis, o Ebrill hyd Hydref ac eithrio mis Awst. Carai'r ysgrifenyddion, fodd bynnag, ddwyn i sylw pawb fod un newid yn y drefn am eleni, sef mai ar nos Fawrth y bydd cyfarfod cyntaf y Gymdeithas, sef 9 Ebrill.

Croesewir yn gynnes iawn aelodau newydd i ymuno yn y cyfarfodydd.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

GEMINI  Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed **£££** ichwi
ac yn ymestyn oes eich car

AVW **YSTAD CIBYN**
CAERNARFON (01286) 673559





Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad
yw cost yswiriant gyda **GDH**
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

CHWILOTA

GWYLIWR Y CLEGIR



Y llygaid ar y garreg

Unwaith eto mae diddordeb y darllenwyr mewn gwahanol agweddau o hanes y fro wedi dod â darganfyddiad diddorol arall i'r golwg. Y tro hwn, galwad ffôn gan Eirwyn Williams, Llwyncoed oedd y rheswm i mi dreulio pnawn Sul difyr yn ei gwmni yn crwydro'r llethrau yn ardal y Clegir a'r Bwlch.

Yn ystod misoedd y gaeaf bu Eirwyn wrthi'n adnewyddu hen wal gerrig rhwng ffermdy'r Llwyncoed a Lôn Clegir. Roedd gwreiddiau coed criafol wedi achosi i'r wal fylchu mewn mannau ac, wrth glirio'r coed a'r mân dyfiant o ddeutu'r wal y daeth y ddau 'lygad' i'r golwg.

Fe'i galwaf yn 'llygad' am y tro, oherwydd does gen i ddim gwell disgrifiad ohonynt, na'r syniad lleiaf chwaith o'u harwyddocad. Mae'r garreg ble cerfiwyd y 'llygad' wedi ei gosod ym môn y wal gerrig - hynny yw, mae'r garreg yno ers pan adeiladwyd y wal gyntaf. Nid carreg wedi ei gosod i mewn i gau bwllch ydyw.

Mae wyneb y garreg (y rhan sy'n cynnwys y 'llygad') yn weddol llyfn, ond mae gweddill y garreg, sy'n llenwi bol y wal, yn debycach i siâp wy. Mae'n amlwg hefyd nad yw'r garreg yn



Y wal fynydd yn Llwyn Coed

gyfan. Rhywbryd - a hynny cyn ei gosod yn rhan o'r wal, mae'n debyg - roedd y garreg yn fwy o faint. Islaw'r 'llygad' mae ôl torri neu hollti.

Y cwestiwn i'w ofyn yw: pa mor hen ydi'r 'llygad'? Ac ar hyn o bryd, does dim posibl ateb y cwestiwn. Rwyf eisoes wedi holi un neu ddau o arbenigwyr ym maes archaeoleg, ond heb gael ateb pendant. Gobeithio y bydd y llun yn fwy o gymorth iddynt.

Mae'r wal ei hun o leiaf ddau can mlynedd oed. Er mai fel wal mynydd y cyfeirir ati, nid yw'n ffitio i batrwm y waliau mynydd syth sy'n rhannu mynydd-dir y Cefn Du. Adeiladwyd y rhain o

bosibl pan hawliwyd tiroedd y mynydd gan whanol dirfeddiannwyr - yn ardal y Clegir, teuluoedd y Faenol, Glynllifon a Phlastirion.

Mae'r wal hon yn perthyn i gyfnod cynharach. Mae'n wal uchel; mewn mannau'n cyrraedd pum troedfedd, ac yn igam-ogamu i fyny ac i lawr gan ddilyn y dirwedd. Yn sicr, mae'r wal yn perthyn i gyfnod cyn deddfau cau'r tiroedd comin yn yr ardaloedd hyn. Mae'n bosibl hyd yn oed, ei bod yn un o waliau terfyn gwreiddiol yr hen Lwyncoed. Ac y mae hynny'n mynd â ni'n ôl rai canrifoedd...

O Lanberis i Gerddorfa Boston?

Bâm yn holi hynt bardd o'r enw Dewi Glan Teifi rai rhifynnau'n ôl. Ganwyd un plentyn iddo yn Lanberis, ond yng Nghaernarfon y bu byw am y rhan fwyaf o'i oes fer. Bellach, daeth mwy o wybodaeth i law. Mae'n ymddangos iddo briodi yng nghapel Gorffwysfa, Lanberis yn 1882 gyda Sarah Elin, merch o Fethesda. Yr hyn sy'n ddiddorol yw fod merch anghyfreithlon i Sarah Elin wedi ei bedyddio yng nghapel Gorffwysfa ym mis Hydref 1879, dair blynedd cyn ei phriodas. Enw'r ferch fach oedd Mary Elizabeth Hughes.

Yn ôl Cyfrifiad 1881 roedd y teulu'n byw yn 9 Stryd Siarlot, Lanberis. Elizabeth Hughes, gwraig weddw, drigain oed oedd y penteulu, ac mae'n disgrifio'i hun fel 'lodging house keeper'. Roedd hi'n enedigol o Gapel Curig. Ei merch oedd Sarah Ellen, merch ifanc ddi-briod, ddwy ar hugain oed sy'n 'domestic servant' yn ôl ei galwedigaeth. Yn yr un tŷ roedd merch Sarah Elin, sef Mary Elizabeth, plentyn deunaw mis oed, a Hugh Robert Hughes, tair ar ddeg oed. Roedd Elizabeth Hughes yn nain iddo. Dyna aelodau'r teulu. Ond roedd hefyd bedwar lojwr yn aros yn yr un tŷ! Eu henwau oedd John William Hughes, pedair ar bymtheg oed o Dreffynnon a 'printer

composer' wrth ei alwedigaeth. Ble roedd yn gwneud y math hwn o waith yn Lanberis tybed? Yno hefyd roedd Thomas Williams, crydd, 33 oed o Bentrefoelas; David Jones, plastrwr, 19 oed o Lansanffraid, Glan Conwy; a William Closs, 24 oed, chwarelwr o Lanberis. Dipyn o gymysgfa mewn un tŷ!

Doedd neb o'r trigolion hyn yn byw yn 9 Stryd Siarlot erbyn 1891. Roedd Sarah Elin eisoes wedi priodi gyda Dewi Glan Teifi ac wedi symud i fyw i Dai Penrallt, Caernarfon. Ond i ble'r aeth ei mam a'i merch fach anghyfreithlon? Nid yw Mary Elizabeth yn ymddangos gyda'i mam a Dewi Glan Teifi ym Mhenrallt, Caernarfon yn 1891. Ni fyddai ond prin ddeuddeg oed ar y pryd, a siawns nad oedd wedi gadael cartref mor ifanc a hynny. A gafodd hi felly ei magu gyda rhywun arall - yn Lanberis o bosibl? Yr hyn sy'n ddiddorol yw fod Mary Elizabeth Hughes wedi cael ei hyfforddi i chwarae'r ffidil, ac iddi ddod yn aelod o'r Boston Philharmonic neu'r Boston Symphony Orchestra. Ond pwy fu'n gyfrifol am yr hyfforddiant? Ac ym mhle, ac efo pwy y magwyd hi?

Oes rhywun o'r fro wedi clywed am y stori hon?

'Arwr Cloff'

Un o gyfres o ddarlithiau gan yr Athro Hywel Teifi Edwards fydd yn cael ei thraddodi yn Llanrug ar Ebrill 10. Testun y gyfres fydd 'Arwyr Cloff Cymru Lân.' Llew Llwyfo fydd 'Arwr Cloff' Llanrug. Mae angen tocyn mynediad ar gyfer y ddarlith gan fod cyfyngu ar y niferoedd oherwydd fod y ddarlith yn cael ei ffilmio ar gyfer y teledu. Mae nifer o docynnau wedi eu gwerthu eisoes. Gallwch gysylltu â mi os ydych am archebu tocyn. Ond cofiwch, y cyntaf i'r felin...

Anfonwch unrhyw ymholiad neu bwt o wybodaeth am hanes y fro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (01286) 673515



Cwmnï Annibynnol Lleol Hotel & Restaurant
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.
Bwrdd Pwll ar gael
Bwydlen Bar a Restaurant
Trwydded lawn tŷ tafarn,

STEPHEN JONES

† Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870
(01286) 872 491
(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484

► Bysiau o 12 i 53 sedd

► Teithiau Lleol a Thramor

► Gwaith Contract

► Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CLWB 300

Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Chwefror: £40: Mr Eric Wyn, Y Fron; £25: Mrs L.J. Williams, Plas Bodhyfryd; £10: Dr Huw Roberts, Liverpool House. DATHLU PEN-BLWYDD.

Llongyfarchiadau i Dewi Owen, Glyn Afon ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed. Dymunwn bob hapusrwydd i ti i'r dyfodol.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Mrs Sian Williams, athrawes yn yr ysgol a'i phriod, Ian, ar enedigaeth mab bychan, Elgan Rhys, brawd bach i Helodd Gwawr.

DATHLU PRIODAS AUR.

Llongyfarchiadau mawr i Gwilym Madog ac Emsul Jones, Stad Bro Waun ar ddathlu cyrraedd hanner can mlynedd o fywyd priodasol. Hefyd buont yn bedyddio eu hwyres fach, Elan Head, chwaer fach loan, yng nghapel Brynrodyn, gyda'r Parch Geraint Roberts yn gweinyddu.

DIOLCH. Dymuna Gwilym Madog ac Emsul ddiolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am y dymuniadau da a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu priodas aur.

DIOLCH. Dymuna Robert a Bethan, Gwernydd, ddiolch yn fawr i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas arian yn ddiweddar. Diolch arbennig i'r hogiau a'u cariadon am drefnu y 'sympre'.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs Doris Roberts, Dwyros yn ei phrofedigaeth o golli ei mam.

CYDYMDEIMLO. Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Eric

Jones, Stad Tref Eilian. Cydymdeimlwn yn ddwys â Rhian a Fflur yn eu colled drist o golli priod a thad annwyl.

CYDYMDEIMLO. Yn dawel yn nghwmni ei theulu yn Ysbyty Gwynedd bu farw Elena Wyn Jones ar 22 Ionawr 2002, yn 69 oed. Roedd yn fam a mam yng nghyfraith i Alfie a Heulwen, Bethan a Robat, a nain i Delyth, Ceirion, Llion, Gerallt, Edryd a Sioned.

Yn enedigol o'r pentref treuliodd ei bywyd priodasol yn ffermio gyda'i diweddar wr, John, yn Hafod Rhug cyn ymgartrefu ym Mryn Meurig. Roedd yn aelod brwdfrydig o'r pwyllgor gwreiddiol a sefydlodd y Ganolfan leol. Wedi hynny, bu'n aelod o dîm bowlio'r pentref am rai blynyddoedd gan fwynhau'r cystadlu a'r cyfeillgarwch. Roedd yn nain hynod falch o'i hwyron a'i hwyresau ac yn ffrind diffuant i amryw. Bydd y golled yn un lem i'w theulu a'i chyfeillion.

DYMUNA Alfie a Bethan a'u teuluoedd ddatgan diolch o waelod calon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad, yr ymweliadau, y galwadau ffôn a'r llu cardiau a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli eu mam, Elena. Diolch hefyd i staff ward Alaw, Ysbyty Gwynedd a Meddygon Waunfawr, ac i Dr Williams yn arbennig am eu gofal tyner. I Pearl, Valmai ac Annwen am gynorthwyo yn y tŷ ddiwrnod yr angladd, ac i Marian am ei chymorth a'i charedigrwydd. I'r Parch Gwenda Richards a Catherine Jones, yr organyddes a hefyd i'r trefnydd angladdau, Gwynfor Jones. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd er

Gwirfoddolwyr y Prince's Trust yn Antur Waunfawr



Gwirfoddolwyr y Prince's Trust gyda rhai o weithwyr Antur Waunfawr.

Yn ddiweddar bu criw o wirfoddolwyr lleol yn brysur yn adnewyddu parc natur Antur Waunfawr ar gyfer tymor y gwanwyn a'r haf. Noddwyd Prosiect Gwirfoddolwyr y Prince's Trust gan nifer o fusnesau lleol a bu'r criw, a leolir ar Stad y Faenol, Bangor

yn ail-wneud llwybrau'r parc, atgyweirio'r ffensys, glanhau ffosydd a phlannu coed. Noddwyd y prosiect gan Watkin Jones, Scipiau Arfôn, Huws Gray-Fitlock, Parc Glynllifon, Scottish Power a Choleg Ial Wrecsam.

cof am Elena tuag at Feddygfa Waunfawr a ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

MERCHED Y WAWR. Yng nghaffi Blas y Waun, Antur Waunfawr y cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf. Dathlu Gŵyl Dewi yr oeddym gyda chinio ardderchog wedi'i baratoi gan Carol a'i staff croesawgar.

Daeth Brenda â lluniau diddorol o'i mordaith o gwmpas Pegwn y De i ni gael eu gweld ac roedd y rhai hynny yn dipyn o agoriad llygad i ni i gyd.

Cyflwynodd Mrs Mary Evans, 7 Tref Eilian, anrheg i'w rhoi ar raffl i'r Gangen, sef dol fechan wedi'i gwisgo mewn gwisg Gymreig, wedi'i chrosio gan Mrs Evans ei hunan. Enillwyd y ddol gan Heulwen.

Diolchodd Irene, Llywydd y Gangen, am rodd hael Mrs Evans ac am y cinio blasus a gawsom. Barn pawb oedd i ni gael noson arbennig.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau, 21 Mawrth a'r gŵr gwadd fydd Dr Berwyn Owen, Llanrug. Testun ei sgwrs fydd 'Berwyn a'i Bils' ac edrychwn ymlaen am noson ddiffr iawn yn ei gwmni.

Y DAIL YN CHWYTHU TRWY GYMRU. Dyna bennawd erthygl ar y 'Big Leaves' gan Telor Iwan yn y cylchgrawn 'Sgrin' yn ddiweddar. Bu Telor yn sgwrsio â'r hogiau am eu taith o amgylch Cymru ac am y cyfle a gawsant i fynd i'r wyl 'South by South West' yn Austin, Texas, UDA. Cawn ninnau eu llongyfarch ar eu llwyddiant, yn mynd o nerth i nerth.

SWPER PLAID CYMRU

Cofiwch fod Swper Plaid Cymru, Cangen Waunfawr a Chaeathro yn y Bistro Llanberis wedi ei ohirio tan Nos Sadwrn, Ebrill 27ain. Bydd y 'run Croeso Cynnes i'r aelodau ynghyd ag unrhyw un arall sydd â diddordeb.

Enwau i Irene Roberts (650 545) neu Olwen Williams (650 201) cyn Ebrill 5ed os gwelwch yn dda.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partiön, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi

Keith Rees Hughes
1 Cae Newydd, Llanrug

(01286) 674416 neu (07880) 847161

G. EVANS



ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Giffynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DYMUNA Olwen Owen, Gareth, Bryn, Rhian a'r teulu oll ddiolch o galon i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar yr achlysur trist o golli gŵr, tad a thaid annwyl iawn, sef Alwyn Owen, 15 Stryd Siarlot, Llanberis. Gwerthfawrogwyd pob cerdyn, galwad ffôn ac ymweliad. Diolch arbennig i'r Parch John Pritchard am wasanaethu ac am ei ofal diffuant. Diolch hefyd i'r Parchedigion John Owen, Jim Clarke ac Eric Jones am eu cymorth.

Diolch am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Ysbyty Minffordd, Bangor a Chapel Coch, Llanberis. Trosglwyddwyd cyfanswm o £3,000 i Ysbyty Minffordd a £500 i gronfa'r Ysgol Sul yng Nghapel Coch. Diolch yn fawr.

UNDEB Y MAMAU. Pnawn dydd Mawrth, 12 Mawrth cynhaliwyd y Cyfarfod Misol o'r gangen yn y Rheithordy. Ein Rheithor, y Parch Philip Hughes arweiniodd ni mewn gweddi. Cyfarfod i ethol swyddogion am y flwyddyn oedd hwn ac fe etholwyd fel a ganlyn:

Aelod Cofrestru: Mrs Betty Humphreys; Trysoryddes: Mrs Non Owen; Ysgrifynyddes: Mrs Audrey Evans. Y tair i ddal y swydd am flwyddyn.

Cafwyd ychydig o faterion busnes i ddilyn gan gynnwys materion a drafodwyd yn y Pwyllgor Deoniaethol a gynhaliwyd yn y Felinheli ddydd Llun, 11 Mawrth.

Tynnwyd rhaglen ddiddorol ar gyfer y misoedd nesaf gan gynnwys trip ym mis Mehefin.

Cydymdeimlwyd â theulu y diweddar Tom Eilian Jones yn eu profedigaeth.

Mrs Betty Humphreys a Mrs Audrey Evans oedd yn ymorol am y baned a diolchwyd iddynt ac hefyd i'r Rheithor a Sandra am eu caredigrwydd yn rhannu eu cartref â ni unwaith eto, gan Mrs Nellie Morris gyda Mrs Kathleen Williams yn eilio. Diwedddwyd drwy adrodd Y Gras.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS Pob dymuniad da i Michael Griffith

a'r teulu. Hyderwn y byddant yn hapus iawn yn eu cartref newydd yng Nghaergrawnt. Bu Michael yn aelod ffyddlon iawn o'r côr ers rhai blyneddoddd ac fe fydd colled fawr ar ei ôl. Hwyl fawr i'r dyfodol.

LLEISIAU LLIWEDD. Ar ôl y cyngerdd a gynhaliwyd yng Nghapel Coch i'r Gymdeithas Lenyddol trosglwyddwyd £127 tuag at yr Hospis yng Nghymru. Hefyd £50 tuag at Ymchwil i Farwolaeth Babanod yn y Crud.

Yn ystod y mis diwethaf bu'r côr yn canu i aelodau Clwb yr Henoed pan oeddynt yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Victoria. Buont hefyd yn canu i'r ymwelwyr yn yr un gwesty ac maent wedi cael gwahoddiad i fynd yno eto yn ystod mis Ebrill.

PLAS PENGWAITH. Bu mis Chwefror yn ddistaw iawn yn y Cartref, ond erbyn rwan mae'r gwaith addurno wedi dechrau. Yn anffodus, oherwydd hyn mae'n ddrwg gennym orfod gohirio rhai gweithgareddau: y Bingo ar ddydd Mercher bob wythnos. Oherwydd fod cynifer o drigolion yn y Cartref mae lle i gynnal y gweithgareddau yn brin a hefyd yn anaddas o ran diogelwch. Fe gyhoeddwn y dyddiad pan fydd yn ail-ddechrau wedi i'r gwaith ddod i ben.

Cafwyd y bws mini yma am gyfnod a chawsom ddau drip. Buom ym Mhorthmadog yn cael cinio ac wedyn ymlaen dros y Crimea i Fetws-y-coed cyn dod adref. Ar yr ail ddiwrnod buom yn Sir Fôn am ginio a gorffen yn Ninas Dinlle i gael gwynt y môr.

Hoffem longyfarch Karen ar basio ei phrawf gyrru'r bws y mis diwethaf.

Roedd Mrs Annie M. Evans yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 y mis diwethaf. Yn dathlu y mis yma mae Mrs D. Barlow. Dymunwn ben-blwydd hapus i'r ddwy ohonynt.

Mae Mrs R. Thomas, Llanberis wedi mynd adref bellach. Anfonwn ein dymuniadau da iddi hi a Mr Thomas.

Wedi dod i aros atom am gyfnod mae Mrs K. Jones, Cwm-y-glo a Mrs A. Jones, Llanrug. Dymunwn roi croeso cynnes iddynt.



Gareth Vaughan Owen yn cyflwyno sic am £3,000 i staff Ysbyty Minffordd, Bangor i gynnal gwaith y rhai sy'n gofalu am gleifion Alzheimer. Dymuna ddiolch o galon i bawb a gefnogodd ac a gyfrannodd tuag at ei daith feiciau nodedig oddi amgylch Ynys Môn.

Hoffem gydymdeimlo â theulu'r ddiweddar Mrs J. E. Parry, Hafan Elan, Llanrug yn eu profedigaeth. Bu Mrs Parry yma gyda ni am gyfnod reit hapus, ond yn ffodus iawn fe gafodd ymgartrefu yn ôl yn Llanrug. Atgofion cynnes iawn sydd gan bawb yma amdani.

MARWOLAETH. Bu farw Mrs Lola Owen, 3 Snowdon Street yn Ysbyty Gwynedd ar 27 Rhagfyr ar ôl gwaeldd byr, yn 68 mlwydd oed. Roedd yn briod annwyl i Alwyn a mam Gwilym, Hefin a Gwyn, a nain i'r wyron a'r wyres.

Roedd wedi treulio blyneddoddd fel nyrs gofrestredig yn Ysbyty Gwynedd.

Bu gwasanaeth yng Nghapel Jerusalem ac yna yn yr Amlogfa ym Mangor ar 3 Ionawr, lle yr oedd tyrfa fawr wedi dod.

DIOLCH. Dymuna Alwyn a'r meibion ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad, galwadau ffôn, y nifer fawr o gardiau a dderbyniwyd a'r arian.

Diolch i holl staff Uned Gofal Coronary Ysbyty Gwynedd, a holl staff y Feddygfa yn Llanberis. Diolch hefyd i'r Parch. John Pritchard, y Parch. Gwynfor Williams a Mrs Hefina Jones, yr organyddes, hefyd i Gwynfor

Jones o E. W. Pritchard am ei wasanaeth proffesiynol. Diolch hefyd i Danny a Nerys yn y Bistro, Llanberis.

Derbyniwyd y swm o £1,700 er cof amdani, sydd i'w rannu rhwng y Feddygfa a'r Uned Gofal Coronary yn yr Ysbyty. Diolch yn fawr iawn i bawb.

DILCH. Dymuna Meira Pitts, 14 Cae Sarn, Y Groeslon ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y galwadau ffôn, yr ymweliadau, y blodau a'r cardiau a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty, ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr iawn i bawb. DYMUNA Moreen Lennon, Plas Tirion ddatgan ei gwerthfawrogiad i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra yn yr ysbyty yn ddiweddar. Llauer o ddiolch hefyd i holl staff Ward Glaslyn, Ysbyty Gwynedd am y gofal arbennig a gafodd.

DIOLCH. Dymuna Mrs Nellie Carveth ac Eric a theulu'r diweddar Bob Carveth, Henryd, Olgra Terrace, ddiolch am bob cymorth a chydymdeimlad a dderbyniwyd oddi wrth gyfeillion a chymdogion yn eu profedigaeth sydyn o golli priod a thad a thaid annwyl.

NOSON LAWEN

S4C

CANOLFAN HAMDDEN

PLAS FFRANCON, BETHESDA

7.30pm

NOS FERCHER
MAI 1

GLYN OWENS
yn cyflwyno

IONA AC ANDY
CANTORION COLIN
JONES
LLION WILLIAMS
RHIALTWCH
DERFEL THOMAS
ARWEL WILLIAMS

NOS IAU
MAI 2

GARETH OWEN
yn cyflwyno

CELT
CÔR MEIBION Y
PENRHYN
JOHN OGWEN
CANTARIA
TONIG

Tocynnau £4 (£2 i blant/pensiynwyr) ar gael gan:

DAFYDD EVANS - 01286 872407

SIŌP BAPUR BETHESDA - 01248 600640

MEGAN BURNELL - 01248 601136

EILEEN GRIFFITHS - 01248 601421

BERYL BRYANT - 01248 364592

ELW AT TY GOBAITH, YSGOL PENDALAR AC
ACHOSION DA LLEOL ERAILL



**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys



**CASTELL BOWNSIO
AR GYFER
POB ACHLYSUR**

Down â fo atoch
a'i nôl wedyn

Ffôn: 871782

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CYDYMDEIMLO. Dydd Mercher, 6 Mawrth yn frawychus o sydyn bu farw Mrs Elizabeth Ann Jones, Tyddyn Oer. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Y Cysegr ddydd Llun, 11 Mawrth dan ofal y gweinidog, y Parch Dafydd Hughes. Estynnir pob cydymdeimlad ag Idris a'r teulu yn eu profedigaeth.

CLWB BRO BETHEL. Yn y cyfarfod 5 Chwefror cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan y gŵr gwadd, Mr Geraint Lloyd Owen yn sôn am ei blentynod yn y Sarnau. Diolchwyd i'r gŵr gwadd gan y Prifardd Selwyn Griffith.

Mr Gwilym Owen, BBC Bangor oedd y gŵr gwadd yn y cyfarfod 5 Mawrth. Cafwyd prynhawn difyr iawn gyda Mr Owen yn sôn am gychwyn ei yrfa ac am hen gymeriadau doniol a hwyliog. Diolchwyd i Mr Owen gan Mr Trefor Williams a Mr Selwyn Griffith, hen gyfaill i Mr Owen.

CYDYMDEIMLO. Dydd Sadwrn, 9 Mawrth wedi gwaeledd hir bu farw Mrs Grace Ann Williams, gynt o 36 Bro Rhos. Cynhaliwyd yr angladd yn y Cartre ac wedyn yn Amlosga Bangor ddydd Sadwrn, 14 Mawrth. Roedd y gwasanaeth dan ofal y Parch Gwilym Parry a'r Parch R.E. Hughes. Estynnir pob cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

MERCHED Y WAWR. Nos Fercher, 13 Mawrth, cyfarfu'r gangen yn neuadd yr ysgol gynradd i ddathlu Gŵyl Ddewi. Ar ôl mwynhau swper ardderchog a ddarparwyd gan Cerid Mackinnon treuliodd orig ddifyr iawn yng nghwmni Sian Wheway a Dafydd Roberts. Mwynhawyd cerddoriaeth swynol ac amrywiol, oedd yn gwau'r traddodiadol a'r modern gyda'i gilydd. Diolchwyd iddynt ar ran y gangen gan Mair Read. Hefyd diolchwyd i Edwina am y gosodiadau blodau hardd a addurnai'r byrddau.


Cydymdeimlwyd â theulu'r ddiweddar Elizabeth Jones, Tyddyn Oer. Dymunwyd pen-blwydd hapus i ddwy gyn-aelod, sef Annie Elisabeth Williams a Mary Griffiths. Llongyfarchwyd Mair Jones ar ddathlu pen-blwydd arbennig y diwrnod cynt a chyflwynwyd gosodiad o flodau iddi. Llongyfarchwyd Raymond ac Irfon, mab ac ŵyr Alice Jones ar raddio yr un pryd a dymunwyd yn dda i Rhys, mab Rhian Hughes a fydd yn cystadlu ar yr unawd pres 12-15 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd ac i blant y pentref yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Margaret Williams oedd yr aelod lwcus a ddewisodd y wob, sef pryd o fwyd i ddau yn y Bistro, Llanberis. Enillwyd y raffl gan Ann, Ceinwen, Glenys, Eryl a Bet. Y mis nesaf ceir cwmni cynrychiolydd o Archfarchnad Tesco a fydd yn agwreig am ffurthau egsotig.

YSGOL BETHEL. Bu mis Mawrth yn fis prysur iawn eto i'r plant. Fore Mercher, 6 Mawrth aeth yr adran lau i Theatr Gwynedd i weld perfformiad o'r 'Crinod'. addasiad Cymraeg o'r llyfr 'The Twists' gan Roald Dahl.

Pnawn lau, buom yn brysur yn diddanu aelodau o glwb Bro Bethel yn y cyngerdd Gŵyl Dewi blyneddol. Wedi cyngerdd graenus iawn gan y plant mwynhaodd yr henoed de bach a baratowyd gan ddisgyblion blwyddyn chwech.

Yn ystod diwrnod Dim Ysmygu aeth rhai o nofwyr hyderus i Gala Nofio yn y ganolfan yng Nghaernarfon a chael tystysgrif am gymryd rhan mewn chwaraeon dŵr.

Diwrnod y Llyfr. Dathlwyd y diwrnod eleni pan ddaeth Myrddin ap Dafydd am ddiwrnod o weithdai barddoni hefo'r plant. Gweithiodd yn y dosbarth lau i greu cerddi dosbarth. Dyma gerdd blwyddyn 5.



Myrddin ap Dafydd yn ysgol Bethel.

Braf yn y Dŵr

Coesau fel jeli mewn daeargryn, Cwnigen o flaen golau car Sy'n sefyll ar ymyl y pwll.

Roced dân gwyllt i'r dŵr: ffrwydriad fel petrol yn fflamio, morfil yn gwagio'i dwll anadlu.

Symud yn braf, Un o longau hwylio cei Caernarfon Yn cerdded ag asgwrn yn ei cheg.

Hanner tro Fel awyren mewn sioe awyr, Gorwedd ar gwmwl.

Fel rhan o weithgareddau Dydd y Llyfr aeth Blyneddol 1 a 2 i'r llyfrgell yng Nghaernarfon i wrando ar stori.

Dydd Llun aeth Blyneddol 5 a 6 i Theatr Gogledd Cymru, Llandudno i Weithdy Gwyr Cerdd yng nghwmni Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC. Roedd yn brofiad i'r plant gael canu gwaith Gareth Glyn i gyfeiliant y gerddorfa.

CHIROPODIST
Gwasanaeth
yn eich cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn:
(01286) 675754

Pob lwc i aelodau'r Urdd sy'n cystadlu yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor, 23 Mawrth.

Nos lau, 21 Mawrth, bu Blyneddol 2, 3 a 6 yn cymryd rhan mewn noson o ddawns yn

Theatr Gwynedd.

Dymunwn yn dda i Mrs Guillemin, y pennaeth, sydd wedi derbyn triniaeth mewn ysbyty yn Ffrainc. Gobeithiwn ei gweld yn ôl wedi'r gwyliau yn holliaeth.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cynhaliwyd cyfarfod y Cyngor ar y Sed o Fawrth. Roedd un ar ddeg Cynghorydd, y Clerc a'r Cynghorydd Sir, Huw P. Hughes yn bresennol. Cadeiriwyd gan y Cynghorydd R. Len Jones. Datganodd y Cynghorydd Alun Wyn Evans ei fod yn awyddus i ymddiswyddo o fod yn aelod. Teimlad y Cyngor oedd gofid o'i golli. Eglurodd Alun mai ei iechyd oedd y rheswm am y penderfyniad. Diolchwyd iddo am flynyddoedd o ffyddlondeb, ei gysondeb a'i deyrngarwch i'w ardal. Derbyniwyd bod rhaid parchu ei ddeisyfiad a dymunwyd yn dda iddo i'r dyfodol.

Materion ffyrdd: derbyniwyd ateb Gwynedd na ellid gwneud llwybr troed o Fryn'refail i Beran ar hyn o bryd oherwydd y gost; danfonir cŵyn i Wynedd bod coed yn tyfu wrth ochr y ffordd ger Perthi a Winllan

Penisa'rwaun a bod coeden yn amharu ar y golau ger Winllan.

Llwybrau cyhoeddus: bydd Swyddog llwybrau Gwynedd yn ymateb maes o law i'r cwynion a restrwyd fis Chwefror.

Cludiant cyhoeddus: cafwyd ateb Gwynedd nad oes modd lleihau'r amser aros yn Rhydfadog, Deiniolen rhwng bwsiau Caernarfon/Bangor/Llanberis/Dinorwig.

Mae sedd wâg yn ward Bethel wedi ei hysbysebu ar ran Prif Weithredwr Gwynedd.

Derbyniwyd adroddiad o gyfarfod cyntaf y Grwp Cymunedol. Mae amryw o brosiectau eisioes ar y gweill ac mae trafodaeth gyda Mr Eurwyn Griffith, Swyddog Datblygu Gwynedd, i barhau. Gwahoddwyd y Cynghorydd Huw P. Hughes i fod yn aelod o'r Grwp.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 9 Ebrill 2002.

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd – 7 diwrnod yr wythnos


PLUM24CYM

Gwaith Plymio • Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â **DOUG JONES**, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

www.s4c.co.uk/clwb garddio

clwb garddio



Y garddbenigwyr yn hau hadau i'ch ysbrydoli

8.00PM
BOB NOS FAWRTH
YN DECHRAU 9 EBRILL

TRANSL888/889
SBECTEL 378/379

CYFRES NEWYDD

S4C

Ysgol Brynrefail

Diwrnod y Llyfr

Paratoi brwd ar gyfer y 14 o Fawrth, sef Diwrnod y Llyfr. Cyfle i hybu ac annog mwy o ddarllen. Gweld pa lyfrau sydd ar gael a thrafod hen ffefrynnau hefyd.

Myfyrwyr y chweched dosbarth yn darllen i'r disgyblion fydd, fel rheol, yn darllen iddynt hwy yn y Cynllun Darllen boreol yn y llyfrgell. 'Roedd yn braf clywed y chweched yn darllen i ni yn lle bo ni'n gwneud y gwaith i gyd,' oedd sylwadau rhai o'r disgyblion iau.

Arddangosfa o waith Saesneg disgyblion blyneddodd 7 i 9 o'u hoff lyfrau. Cynnyrch diddorol a graenus iawn a gafodd gryn sylw gan eu cyddisgyblion. Da iawn chwi am yr ymdrech.

Wrth gwrs, fe gafwyd cwis i weld pwy oedd yn adnabod cloriau llyfrau heb deitl nac awdur arnynt, a channoedd yn tyrru i drio eu lwc! Ond, wedi'r holl grafu pen a'r dyfalu Berwyn Jones, Bl 8I oedd y buddugwr.

Cwis arall oedd ceisio meddwl pa lyfr oedd rhai o'r athrawon yn ddarllen ar y pryd; o *Sali Mali* i *The Long Road to Freedom*! Gyda chôr o leisiau yn holi 'Syr, be 'da chi'n ddarllen?' a 'Miss, wnewch chi ddeud wrtha ni?' Bwrlwm a hwyl yn y dyfalu ond Jason Williams 8S aeth â hi. Ef oedd yr unig un i gael yr atebion i gyd yn gywir.

Llongyfarchiadau i'r ddau ac rwyf yn siwr eu bod wedi mwynhau'r wy pasg crand a gyflwynwyd iddynt gan y Prifathro.

Roedd rhai yn eithaf bodlon i eistedd yn y cyntedd i edrych ar fideo o'u hoff lyfrau ac eraill yn gwrandao ar dapiau straeon yn y llyfrgell.

Plant ac athrawon yn dod a'u hoff lyfrau i'r ysgol ac yn rhannu profiadau gyda'i gilydd.

Gwir yw dweud fod pawb wedi cael mwynhad mawr o'r diwrnod arbennig yma ac, er ein bod bellach yn oes y cyfrifiadur, mae'n amlwg fod lle pwysig i'r llyfr o hyd.



Y Prifathro'n cyflwyno wyau Pasg i Berwyn Jones a Jason Williams




Disgyblion y chweched yn rhannu stori a rhai o'r disgyblion iau.



Rhai o'r arddangosfeydd diddorol a greuwyd ar gyfer Diwrnod y Llyfr.

Chwysu chwarteriau wrth wneud TASau!



Dyma ddisgyblion Bl.9 yn chwysu wrth wneud ffug TASau yn neuadd yr ysgol. Paratoi yn drylwyr erbyn mis Mai! Pob lwc iddynt.

Pêl-rwyd blwyddyn 7

Ar Chwefror y seithfed ar hugain aeth tîm merched blwyddyn saith i Ysgol Dyffryn Ogwen i chwarae pêl-rwyd.

Dechreuodd y gêm yn gyffrous a llwyddodd Lowri Jones i sgorio dwy gôl. Gyda amddiffyn da gan Brynrefail fe sgoriwyd pedair gôl arall gan Caroline Evans a Lowri Jones. 6-0 i Frynrefail.

Stacey Joanne Wynne 7n

Dechreuodd yr ail hanner fel yr hanner cyntaf gyda Brynrefail hefo'r bêl y rhan fwyaf o'r

amser. Roedd Lisa Williams, Ffion Angharad a Katy Williams yn chwarae'n eithriadol o dda. Sgoriodd Lowri a Caroline 7 gôl arall.

Yn y pedwerydd chwarter roedd Brynrefs yn chwarae'n wych. Roedd Dyffryn Ogwen wedi dechrau blino ac aeth dwy gôl arall drwy'r rhwyd.

Yn y munud olaf llwyddodd Dyffryn Ogwen i sgorio gôl! Gan wneud y sgôr terfynol yn 18-1 i Frynrefail.

Lowri Jones 7s

Cymdeithas Cyfeillion Ysgol Brynrefail Enillwyr y Clwb Cant

Ionawr 2002

1. (101) Sioned Medi Hughes, Tŷ Canol, Caernarfon - £31.25;
2. (64) Mrs Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant - £18.75;
3. (94) Mrs Lowri Roberts, 8 Pen y Ffriddoedd, Tregarth - £12.50.

Chwefror 2002

- 1 (40) Miss Jackie Sellars, 2 Stad Tŷ Du, Llanberis - £31.25;
2. (95) Mrs Gladwen Pritchard, Poplars, Llanrug - £18.75;
3. (14) Mrs Maureen Williams, 14 Bryn Moecllyn, Llanrug - £12.50.

Mawrth 2002

- 1 (94) Mrs Lowri Roberts, 8 Pen y Ffriddoedd, Tregarth - £31.25;
2. (03) Mr J.B. Jones, Ceris, Deiniolen - £18.75;
3. (100) Mrs Nest L. Williams, Bryn Mair, Llanberis - £12.50.

Mae angen mwy o aelodau ar y Gymdeithas. A oes yna gyn ddisgyblion awydd ymaelodi? Os hoffech ymuno â'r Clwb, llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd i'r ysgol. Cofiwch bod croeso i unrhyw un ymuno.

GLWB CANT CYMDEITHAS CYFEILLION YSGOL BRYNREFAIL

Enw: _____ Ffôn: _____

Cyfeiriad: _____

Côd Post: _____

Amgacaf: £12 arian ☐ siec ☐ Hoffwn gael archeb banc ☐

Enw eich plentyn/plant yn yr ysgol os yn berthnasol _____ Bl. _____

Ysgoloriaeth i Enlli



Enillodd Enlli Huws, Bethel ysgoloriaeth Gwynedd i astudio Cemeg ym Mhrifysgol Bangor. Bydd yn derbyn y swm o £1,500

dros dair blynedd ac rydym oll yn yr ysgol yn ei llongyfarch ac yn dymuno'n dda iddi yn ei astudio.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer
PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac
ACHLYSURON ARBENNIG

CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a
PHWYLLGORAU

BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL

Ffôn: (01286) 870253



J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob math
ar gael –

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

Alwyn a Sarah Jones BLODAU

RACCA PENISARWAUN

Blodau ar gyfer pob achlysur

Dewis da o Lysiau Fferm

Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod

870605



Danfôn 7 diwrnod
yr wythnos
drwy'r fro

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc – allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: **650218**

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CYFARFOD GWEDDI BYD-EANG.

Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Byd-eang yng Nghapel Hermon bnawn Gwener, Mawrth 1af. Thema'r gwasanaeth, a baratowyd gan wragedd Cristnogol Romania oedd 'Her i gymodi'. Cymerwyd rhan gan aelodau o Eglwys Mihangel, Hermon a Chapel y Rhos. Mrs Megan Williams oedd yr arweinydd, a Miss Llinos Davies a draddododd yr anerchiad. Y cyfeilydd oedd Mrs Carys Jones.

YSGOL GYNRADD

Eisteddfodau'r Urdd: Bu aelodau'r Urdd yn cystadlu yn y ddwy Eisteddfod dan 12 oed. Roedd yn brofiad gwerthfawr iawn iddynt gael cystadlu ar lwyfan yr Eisteddfod Cylch ac fe wnaeth pob un ei orau dros gangen yr ysgol.

Bydd y tîm Dawnsio Gwerin dan 12 oed, Y Parti Canu Unsain, Y Parti Cerdd Dant ynghyd â Ffion Medi, Bl 5 (Unawd Cerdd Dant). Declan Jones Bl.6 (Unawd Pres) a Lois Angharad Bl.6 (Unawd Telyn) yn cynrychioli adran Cylch Arfon yn Eisteddfod Sir Eryri ym Mangor dydd Sadwrn, 23 Mawrth. Dymunwn yn dda iddynt yno.

Gŵyl Dewi: Daeth amryw i'r ysgol ddydd Gwener, 1 Mawrth yn gwisgo gwisg draddodiadol Gymreig ac eraill yng nghrys rygbi Cymru, yn barod i gymryd rhan yn y Cyngerdd a oedd wedi ei drefnu ar gyfer Ymgyrch y *Daily Post* ar gyfer codi arian i Tŷ Gobaith yng Ngogledd Cymru. Mwynhaodd y gynulleidfa bob munud o'r cyngerdd a chasglwyd £1,322.50 i'r ymgyrch. Dymunwn ddiolch o waelod calon i bawb a gyfrannodd i'r achos teilwng hwn.

Sioe: Cafodd disgyblion Bl. 1 a 2 wledd o fwynhad yn gwylio perfformiad Cwmni'r Frân Wen o'u drama 'Chwarae Plant' yn neuadd yr ysgol. Bu disgyblion yr adran lau yn Theatr Gwynedd ym Mangor yn gwylio sioe Crincod gan Gwmni Theatr Gwynedd. 'Sioe gwerth chweil', oedd barn y disgyblion a'r athrawon.

Gwyliau'r Pasg: Bydd yr ysgol yn cau ddydd Iau, 21 Mawrth ac yn ail-agor ddydd Mercher, 10 Ebrill i'r plant, gan fod yr athrawon yn cael tri diwrnod o Hyfforddiant Mewn Swydd.

Cymerwch ofal dros y gwyliau blantos, a mwynhewch eich hunain.

DYMUNA Sharon, Dolwen, Ffordd yr Orsaf ddiolch i'w theulu a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddi ar achlysur ei phen-blwydd yn 40oed ar 6 Mawrth. Cafwyd parti i ddathlu yn y Ganolfan Gymuned. Diolch yn arbennig i Eurwyn a Natalie am ddarparu'r cyfan ac i Cerid Mackinnon am y wledd fendigedig.

BABI NEWYDD. Llongyfarchiadau mawr i Bethan a Mike (Pen-y-groes) ar enedigaeth merch fach, Katie, dydd Mawrth, 19 Mawrth. Llongyfarchiadau hefyd i Taid a Nain, sef Selwyn a Beti Roberts, Meifod, Ffordd yr Orsaf ac i'r hen nain, Mrs Bet Jones, Lyndale.

DIOLCHIADAU.

Dymuna Mrs Lily Aubrey Horman, Venice, Ffordd yr Orsaf ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu gweddïau, galwadau ffôn, cardiau ac anrhegion tra yn cael llawdriniaeth yn Ysbyty Whiston. Lerpwl ac hefyd ar ôl iddi ddod gartref. Diolch o galon i bawb.

Hefyd, hoffai Myfyr a Gwen, 12 Afon Rhos ddiolch o galon i bawb am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ar enedigaeth Guto Myfyr.

PRIODAS RUDDDEM.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Wavell a Liz Roberts, London House ar ddathlu eu Priodas Ruddem ar 24 Mawrth. MARWOLAETH. Cydymdeimlwn yn llwyr â Gwilym a Gareth Parry yn eu profedigaeth o golli eu mam, sef Mrs Jane Ellen Parry, 21 Hafan Elan (1 Hermon gynt).

Hefyd â Mrs Mona Griffith, Orwig House, Ffordd yr Orsaf, ac Alwyn a Rhys yn eu colled fawr yn dilyn marwolaeth Mr Robin Griffith (Robin Ring).

Anfonwn ein cofion hefyd at deulu Mr James Cullen, 50 Bro Rhyddallt. Bu yntau farw ar 23 Chwefror yn 67 oed.

MERCHED Y WAWR

Cynhaliwyd cyfarfod o Ferched y Wawr yn y Ganolfan Gymunedol nos Fercher, 12 Mawrth. Diolchodd y Llywydd, Megan Roberts, i bawb am eu cefnogaeth i'r Caffi yn Eisteddfod yr Urdd ac i Cerid a Margaret am baratoi



Dyma aelodau'r Urdd, Ysgol Gynradd Llanrug a fu'n llwyddiannus yn yr Eisteddfod Cylch ac a fydd yn cynrychioli'r cylch yn Eisteddfod y Sir ym Mangor ddydd Sadwrn, 23 Mawrth. Gyda hwy y mae Wena Green, Bl.4. Daeth ei gwaith Graffeg Cyfrifiadurol dan 12 oed yn llwyddiannus yn y Sir a bydd yn awr yn cael ei feirniadu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Derbyniodd adran yr ysgol y Darian am yr ysgol gyda'r marciau uchaf.

lluniaeth i'r beirniaid. Cyhoeddwyd y digwyddiadau canlynol: Cylch Cerdded y Llywydd ym Mharc Glynllifon ar 6.4.02; Cwis Hwyl yn Nhŷ Golchi ar 19.4.02; Cinio'r Llywydd yng Ngwesty Ginnel Manor ar 27.4.02 a Gŵyl y Pum Rhanbarth ar 11.5.02.

Bydd Eurgain Haf, merch Ann Ifans yn rhedeg yn Marathon Llundain ac mae hi'n casglu arian tuag at yr Adran Niwroleg yng Nghaerdydd a Lerpwl a gofynwyd am noddwyr.

Gwraig wadd y noson oedd Annette Bryn Parri. Rhoddodd Annette adroddiad bywiog a diddorol i ni o hanes ei bywyd, o'i geni yn Neiniolen, y cyfleoedd a gafodd i ganu'r piano a chyfeilio

yn Ysgol Gwaun Gynfi ac Ysgol Brynrefail, Coleg y Royal Northern Manceinion, cyfeilio yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fôn yn 1983, tiwtor yn y Brifysgol, cyfresi ar S4C, priodi a magu teulu a bri rhyngwladol fel cyfeilyddes broffesiynol. Atalnodwyd y cyflwyniad bob hyn a hyn gan ei pherfformiadau cyfareddol ar y piano. Noson i'w chofio yn wir.

Diolchwyd i Annette gan Margaret Parry. Diolchodd Margaret hefyd i Nan ac aelodau'r pwyllgor am drefnu'r ystafell ac am baratoi'r lluniaeth. Enillwyd y raffl gan Mary.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 9 Ebrill a bydd Jean Parc Jones yn rhoi hanes ei thaith i Batagonia.

"Arwyr Cloff Cymru Lân"

LLEW LLWYFO

Darlith gan Yr Athro Hywel Teifi Edwards
Yn y Sefydliad Coffa, Llanrug
Nos Fercher, 10fed o Ebrill. Tocynnau £2.00
Cyfyngir y nifer i 50 yn unig
Tocynnau ar gael gan
Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug
Ffôn: (01286) 673515

Bistro
LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch gadw'n gynnes ac yn glyd!

DAWES

TREK

ENERGY CYCLES

60 Stryd Fawr
Llanberis

Beics a Barcudau

Partiau a Thrwsio Beics

Beics Ffordd a Mynydd,

BMX, Triathlon

Barcudau Hwyl, Chwaraeon
a Delta Powerkites.

Dewis Da

07980 742584 • 01286 871892 sales@energycycles.com

Airborne

OZONE



Oriau Agor

Gaeaf: 5 diwrnod yr wythnos:
lau, Gwener, Sadwrn, Sul, Llun
Haf: 7 diwrnod yr wythnos ar
agor tan 6 pm

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Eirwyn Williams, Llwyncoed yn ei brofedigaeth o golli ei frawd, Noel. Hefyd i Mrs Peggy Rowlands, Talafon ar golli ei chwaer yng nghyfraith ym Methesda: Mrs Nancy Jones (Nancy Rowlands, 4 Dol Afon gynt) ac hefyd i Mrs Margaret Williams, Nant Forgan a gollodd ei brawd, Mr Tom Jones, yn Llanberis.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Mrs Enid Price, Stryd Newydd sydd yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd i Mrs Glenys Pritchard, Bryn Gwynedd sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Preswyl Foelas, Llanrug.

DIOLCH i Mrs Mair Huws, prifathrawes yr ysgol am y cyngerdd canmoladwy a gynhaliwyd ar Ddydd Gŵyl Dewi gyda'r arian yn mynd at Apêl Tŷ Gobaith i blant. Diolch yn fawr.

YSGOL CWM-Y-GLO. Diolch i bawb fu'n cefnogi ein hymdrech i godi arian at Apêl Tŷ Gobaith drwy'r *Daily Post*. Llwyddwyd i gasglu'r swm anrhydeddus o £520 sy'n profi unwaith eto fod y gymdogaeth hon yn un go arbennig.

Braf yw cael llongyfarch nifer o blant am lwyddiant Gwaith Crefft yn Eisteddfod yr Urdd. Daeth 8 gwobr i'r ysgol yng Nghylch Arfon: Laura, Natasha, Cian, Dafydd a Jordan. Dyfarnwyd 5 gwobr gyntaf i weithiau rhai o'r rhain yn y Sir ac felly gobeithiwn rwan y daw llwyddiant pellach i Natasha, Laura a Cian yng Nghaerdydd.

Yn eisteddfod Cylch Arfon daeth Laura a Dafydd yn gyntaf a thrydydd am ganu dan 8 oed. Daeth Morus yn ail am lefaru dan 8, a Laura ac Owen yn gyntaf ac yn ail yng nghystadleuaeth y dysgwyr. Enillodd y parti dawns dan 10 oed a daeth y parti dawns dan 12 oed yn ail. Da iawn y parti Llefaru a ddaeth yn gyntaf a'r parti Unsain ddaeth yn ail. Dymunwn yn dda i Karon Williams yn Eisteddfod Sir Eryri hefyd - hi enillodd yr Unawd Piano dan 12 oed.

Rydym yn anfon ein cofion anwylaf at Mrs Nellie Cullen, Ann,

Kim, Katrina, Sion a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Mr James Cullen. Bu Mr a Mrs Cullen yn werthfawr iawn eu cefnogaeth i ni tra bu Kim a Katrina yn ddisgyblion yma.

Daliwch ati i anfon eich talebau Tesco atom os gwelwch yn dda. Mae'r ymateb wedi bod yn anhygoel hyd yma. Casglwyd dros 4,000 ers y rhifyn diwethaf o'r Ecol Rydym yn wirioneddol werthfawrogi eich cefnogaeth. Diolch yn fawr.

Llongyfarchiadau i Mrs Anwen Williams, Ceunant; Mrs Rita Williams, Caernarfon a Jason Jones, Bod Elan ar ennill gwobrau Clwb yr Ysgol am fis Mawrth.

Cafwyd noson hwyliog o gemau tîm yn yr Urdd - y cyfan yn nwylo Mrs Rita Williams a Mrs Gwenifer Roberts. Diolchwyd iddynt ar ran y plant gan Laura a Cian.

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r gangen yn Hafan Elan, Llanrug nos Lun, 4 Mawrth. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan ein Curad, y Parch Vitoria Hancock.

Yn dilyn y gwasanaeth trafodwyd rhai materion gan Mrs Margaret Latham. Darllenwyd munudau o'r cyfarfod a gafwyd fis Chwefror a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Sandra Hughes, Miss Meira Williams a Mrs Menna Roberts.

Nos Lun, 8 Ebrill bydd y Parch Emyr Owen yn cael ei sefydlu fel Rheithor y Plwyf yn Nefyn. Ni fydd y gangen yn cyfarfod y noson honno.

Dydd Iau, 2 Mai yn Neuadd yr Eglwys, Y Felinheli bydd cyfarfod y Trysoryddion;

Dydd Mawrth, 14 Mai am 2.00 y pnawn yn y Gadeirlan, Bangor bydd Gwasanaeth y Ddeoniaeth.

Yn gofalu am y lluniaeth oedd Mrs M. Latham a Mrs K. Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Latham ac fe'i henillwyd gan Mrs Jones. Rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs Marjorie Roberts. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd Y Gras.

CYMANFA ANNIBYNWYR
CYLCH CWM-Y-GLO.

Cynhelir y Gymanfa eleni yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen bnawn Sul, 21 Ebrill am 2.00 o'r gloch yn unig. Arweinydd y Gân fydd Annette Bryn Parri a'r organydd fydd John Jones. Cenir emynau o'r llyfr *Caneuon Ffydd*. Gwneir casgliad tuag at yr Elusen 'Action Aid'. Fe drefnir bws i gychwyn o Lanberis, Cwm-y-glo ac yna Penisarwaun. Croeso cynnes i bawb.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. Ffôn: 870292

YN YR YSBYTY. Drwg gennym ddeall for Mr Rex Faulkner, Fron Dirion yn Ysbyty Gwynedd yn cael llawdriniaeth i'w law. Pob dymuniad da iddo, a gobeithio y bydd y llawdriniaeth yn llwyddiant ac y cawn ei weld adref yn reit fuan. Brysiwch wella.

ADREF O'R YSBYTY. Da deall fod Mrs Margaret Faulkner wedi dod adref o Ysbyty Gwynedd ar ôl ei damwain. Ar y funud nid yw Margaret yn cael rhoi ei thraed ar lawr ond gobeithio y bydd yn gwella yn lled fuan.

CYNGERDD GWYL DEWI.

Cynhaliwyd y cyngerdd uchod yn y Ganolfan ar nos Iau, 21 Mawrth am 7.30 o'r gloch gyda doniau lleol.

Y GANOLFAN. Cafwyd pwyllgor o'r uchod yn y Ganolfan nos Iau, 28 Chwefror. Yn bresennol roedd Mr Peter Lunt Williams o'r Swyddfa Addysg a chafwyd mantolen am y flwyddyn 2001. Cafwyd rhaglen newydd gan Mr Williams ar gyfer rheoli'r Ganolfan. Wedi hyn fe aed ati i godi swyddogion fel a ganlyn:

Cadeirydd: Mr Harry Edge, Ysgubor; Is-gadeirydd: Mr Graham Ford-Keyte, Hafodty; Ysgrifennydd: Miss Sara Wood, Fron Heulog; Is-ysgrifennydd: Mr Neil Cairn, Congl y Mynydd; Ysgrifennydd Gosodiadau: Mrs Hannah Roberts, Tŷr Ysgol; Trysorydd: Miss Marian Jones, Minallt. Hefyd fe fydd dau aelod etholedig o'r Cyngor, a benodir gan Gyngor Gwynedd, ac un aelod etholedig o Gyngor Cymuned Llanddeiniolen.

Bydd rhaid anfon copi o gofnodion pob cyfarfod er gwybodaeth i'r Swyddfa Addysg.

Gobeithio y cawn gyd-weithio hapus hefo'n gilydd.

Y PASG. Pan ddaw'r Eco allan o'r Wasg fe fyddwn i mewn i wythnos y Pasg. Dymunaf Basg Hapus i bawb ac y byddwn yn sylweddoli gwir ystyr y Pasg pryd y buasem yn dymuno gweld heddwch yn ein tir, a chymdogaeth lle bydd yr hen yn ddiogel yn eu cartrefi, a gweld byd heb ryfela mwyach.

CYFARFOD PREGETHU. Fe gynhelir Cyfarfod Pregethu Capel Cenfywaun ar Sul y Pasg, sef 31 Mawrth pryd y cawn y fraint o gael dwy oedfa dan ofal y Parch Harri Parri. Edrychwn ymlaen am ei glywed a'i genadwri amserol rwy'n siwr. CLWB ORWIG. Mwynhaodd yr aelodau brynawn o ddarllen a gwrando ar eu hoff farddoniaeth yng Nghanolfan Fynydda Blue

Peris ar 14 Chwefror. I ychwanegu at y difyrwch addurnwyd yr ystafell yn chwaethus a darparwyd danteithion arbennig i gydfynd â dathlu Gŵyl Sant Ffolant. Paratowyd y bwyd gan Alice Griffith, Megan Morris a Betty Bower. Enillwyd y raffl oedd Katie Hughes, Sally Brennan a Sue Michaels. Dymunwyd pen-blwydd hapus i'r is-Lywydd, John Brennan a Ray Bower ar 23 Chwefror a gwellhad buan i Ann Lo wedi cyfnod yn yr ysbyty ac i Margaret Faulkner sy'n dal yn Ysbyty Gwynedd.

* * *

Yn y cyfarfod diwethaf o Glwb Orwig yn Blue Peris estynnodd y llywydd, John Cantrell, groeso gartref o'r ysbyty i Anne Lo a Margaret Faulkner, gan ddymuno iddynt wellhad buan. Dymunwyd yn dda ar eu pen-blwydd hefyd i Alice Griffith ac Elizabeth Jones. Diolchwyd am y te a'r raffl a roddwyd gan Rose a John Cantrell. Enillwyd y raffl gan Elizabeth Jones. Hi hefyd a wna'r te, gyda Betty Ann Jones, yn y cyfarfod nesaf.

Tynnwyd sylw'r aelodau at y bwriad o newid y dulliau parcio ceir sydd yn yr arfaeth yn yr ardal. Cytunwyd i ysgrifennu at yr awdurdodau perthnasol i fynegi ein gwrthwynebiad.

Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi gyda chinio ac yna cafwyd cyfle i gyd-ganu ac i wrando ar adroddiadau Cymraeg. Darllenwyd peth o farddoniaeth Eifion Wyn gan Megan Morris a chanwyd yr un darn yn swynol gan Betty Lloyd Roberts. Amlinellwyd holl weithgareddau'r Clwb drwy'r flwyddyn ar gân gan Alice Griffith a N. Wyn Jones. Perfformiwyd sgats hwyliog hefyd gan Andrew ac Alice Griffith. Diolchwyd i bawb a gymerodd ran gan Megan Morris. Addurnwyd yr ystafell yn chwaethus gan Betty Bower a chyflwynwyd tusw o gennin Pedr i'r merched i gyd wrth iddynt ymadael.

**Peidiwch gori
ar stori
- anfonwch hi i'r ECO**

Dewch i'r ganolfan newydd
am fargeinion dodrefn



yng Nghapel Mawr
LLANRUG
Ffôn: 674141

Ar agor: Llun - Sad 10-6;
Sul 10-4

Rygiau, Cabinets, Byrddau,
Cypyrddau dal llyfrau,
Desgiau, Cadeiriau, Soffas,
Gwelyau ayyb

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE

yn LLANRUG
ar gyfer eich
holl anghenion

- Trin cyrff ceir
- Gwaith Mecanyddol
- Gwasanaeth/Service
- Valleting

(01286) 870814

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YSGOL GYMUNED. 14 Mawrth oedd Diwrnod y Llyfr. I ddathlu'r achlysur aeth Bl.5 a 6 i lawr i Gaernarfon i adrodd un o gerddi Mei Mac yng nghwmni Hywel Gwynfryn a Dei Tomos yn siop y BBC ar y Maes. Yno cymerodd y plant ran yn yr hyn a elwir 'y darn cyd-adrodd mwyaf a gynhaliwyd erioed yng Nghymru' gyda linc arbennig gydag ysgolion eraill ledled y wlad.

Ar ddydd Llun, 18 Mawrth fe fydd Bl. 5 a 6 yn mynychu Cywaith Crewyr Cerdd yn Llandudno ac yn cael cyfle i berfformio gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC. Miss Jones a Miss Griffith ynghyd â Miss Roberts fydd yn gofalu am y plant, a diolchir yn arbennig i Miss Griffith am eu paratoi at yr achlysur, trwy ei gwersi cerdd wythnosol.

Caiff Bl.5 a 6 gyfle arall i ddangos eu doniau yn Theatr Gwynedd Bangor ar nos Iau, 21 Mawrth. Y tro yma yn y gystadleuaeth dawnsio creadigol. Miss Jân Jones gynnlluniodd y ddawns, a hefyd bu'n paratoi'r plant. Diolchir yn fawr iddi hithau hefyd am ei gwaith caled.

Cyn y Pasg fe fydd plant Bl.6 wedi bod ar ymweliad ag Ysgol Brynrefail, cyn trosglwyddo yno ym mis Medi. Maent i gyd yn edrych ymlaen at hyn, a diolchir ymlaen llaw i Bennaeth a staff yr ysgol am y gwahoddiad a'u croeso.

Mae gweddill yr ysgol wedi bod yn brysur hefyd gyda'n gwasanaeth arbennig ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi, pan ddaeth yr holl blant a'r staff i'r ysgol mewn naill ai dillad traddodiadol Cymreig neu mewn crysau rygbi coch.

Yn ddiweddar aeth plant Adran y Babanod am ddiwrnod i Goleg Glynllifon fel rhan o'u thema. Cafwyd diwrnod arbennig o dda yn crwydro ar hyd y llwybrau, gan orffen y dydd ar y fferm. Daeth pawb yn ôl yn hapus a blinedig ar ddiwedd diwrnod hir. Gobeithio fod Miss Griffith, Mrs Jones a Miss Roberts wedi glanhau'r tail oddi ar eu 'trainers' bellach!

URDD ADRAN BENTREF

Eisteddfodau Cylch: Bu nifer o blant yn cystadlu yn yr eisteddfod

cylch a chafwyd ymdrech ardderchog gan bawb. Bu Anest Bryn yn fuddugol yn y Ddawns Werin Unigol dan 12 a daeth hefyd yn ail yn y Gystadleuaeth Cerdd Dant 8-10, gyda Siôn Dafydd yn drydydd. Daeth Catrin Heledd hefyd yn ail yn y gystadleuaeth Cerdd Dant o dan 8. Mae Anest a Catrin yn awr yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Sir - pob lwc i'r ddwy. Hefyd bu Anti Marina yn brysur iawn yn hyfforddi parti canu ac, er na chawsant lwyfan, cawsant lawer o bleser a hwyl yn ymarfer a chystadlu.

6 Mawrth: Gwaith Llaw Sul y Mamau gydag Anti Nia - cafodd pawb lawer o bleser yn creu cardiaid unigryw i'w mamau.

13 Mawrth: 'Pictionary' gyda Mr Humphreys, Miss Jones a Mrs Jones - rhannwyd y grwp i dimau i gystadlu yn erbyn ei gilydd i ddyfalu'r ymadrodd a oedd yn mynd hefo'r llun a oedd yn cael ei ddarlunio gan aelod o'r tîm ar y bwrdd gwyn.

20 Mawrth: Noson olaf yr Urdd am y flwyddyn yma. Byddwn yn cael gemau amrywiol a lluniaeth ysgafn.

Yn ystod y tymor nesaf bydd yr Urdd (Rhanbarth Eryri) yn cynnal mabolgampau ac fe wnawn adael i'r aelodau wybod y dyddiad trwy lythyr.

Bydd cyfle i blant Blwyddyn 5 a 6 fynd am ben-wythnos i Glan Llyn (Gorffennaf 5-7). Mwy o fanylion yn agosach i'r amser.

Mae criw da iawn wedi bod yn ffyddlon i'r Urdd dros y gaeaf a dymunwn yn dda i'r grwp mawr o Blwyddyn 6 fydd yn mynd i Frynrefail ym mis Medi.

CROESO. Estynnir croeso twymgalon i Lowri a Martin sydd wedi ymgartrefu yn Fflat Lawnselot, Cyffordd King. Y mae Lowri yn dysgu yn Ysgol Tregarth ac mae Martin ym myd arlwyfaeth. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

GWELLHAD. Anfonir ein cofion anwylaf at bawb sy'n sâl yn y pentref a dymunir adferiad iechyd buan i chi oll.

DIOLCH. Dymuna Sharon a

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Lionel Woolley ddiolch o galon i'w teuluoedd, cymdogion a ffrindiau, ymhell ac agos, am yr holl anrhegion, arian, talebau a'r llu cardiaid a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

NEWYDDION O SELAND NEWYDD. Da deall fod Gwenllian (Tawelfa) a Carl ac Efa ac Iago wedi ymgartrefu'n hapus yn Seland Newydd ac yn mwynhau bywyd yn eu cartref newydd ar fin y traeth. Anfonwn ninnau ein cofion annwyl atynt fel teulu. Buasai'n braf cael newyddion ganddynt o bryd i'w gilydd.

PWYLLGOR NEUADD. Enillwyr Clwb Cant Mawrth yw !. Anwen Hughes, Meillionydd; 2. Bronwen Jones, Cae Corniog Bach, 3. Carolyn Roberts, Pen Dinas Mawr.

Gobeithir trefnu 'Noson o Gân' gydag eitemau gan blant yr Ysgol, aelodau'r Urdd, ac eraill gobeithio, ar nos Iau, 1 Mai yn y Neuadd Gymuned. Bydd manylion pellach ynghyd â phosteri yn ystod y mis nesaf.

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Gobeithio fod mamau'r aelodau wedi mwynhau eu cardiaid a'u blodau ar Sul y Mamau. Cafwyd amser difyr yn chwilio am enwau mamau arbennig yn y Beibl hefyd. Y mae'n amser prysur o hyn i fis Mehefin gyda dwy gymanfa a Gwasanaeth Sul y Beibla. Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr Cylch Cwm-y-glo a Deiniolen bnawn Sul, 21 Ebrill am 2.00 o'r gloch. Arweinydd y gân fydd Annette Bryn Parri. Cenir emynau o *Caneuon Ffydd* a gwneir casgliad tuag at Elusen 'Action

Aid'. Trefnir bws i'r Gymanfa a gynhelir yng Nghapel Ebeneser Deiniolen. Fe drefnir bws hefyd i Gymanfa'r Methodistiaid a'r Gymdeithas Feiblaidd ym Mehefin. EGLWYS SANTES HELEN Dydd Gwener y Groglith cynhelir 'Aw'r Dawel a Myfyrdod' am 2.00 o'r gloch.

Sul y Pasg: Gwasanaethir y Cymun Bendigaid am 10.30 o'r gloch.

Addurno'r Eglwys: Fe fydd yr Eglwys yn cael ei haddurno ar gyfer y Pasg yn dilyn gwasanaeth Gwener y Groglith.


MARATHON LLUNDAIN. Dymuna Eurgain Haf ddiolch am yr ymateb anhygoel i'w hapêl i'w hydrech yn rhedeg ym Marathon Llundain ar 14 Ebrill. Bydd yn codi arian at elusen Tenovus yng Nghaerdydd. Bydd cyfran o'r arian a gesglir yn mynd i'r Adran Niwroleg yn Fazakerley, Lerpwl ac Adran Niwroleg, Ysbyty Athrofaol Caerdydd.

CYMANFA ANNIBYNWYR CYLCH CWM-Y-GLO.

Cynhelir y Gymanfa eleni yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen bnawn Sul, 21 Ebrill am 2.00 o'r gloch yn unig. Arweinydd y Gân fydd Annette Bryn Parri a'r organydd fydd John Jones. Cenir emynau o'r llyfr *Caneuon Ffydd*. Gwneir casgliad tuag at yr Elusen 'Action Aid'. Fe drefnir bws i gychwyn o Lanberis, Cwm-y-glo ac yna Penisarwaun. Croeso cynnes i bawb.

TRIP YR HENOED. Dymuna Pwyllgor Cronfa'r Pensiynwyr ddiolch i bawb a gefnogodd y Noson Bingo yn y Neuadd

Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun



Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646

Brian a Rita Henderson

SIOP Y PENTREF

WAUNFAWR

Ffôn: 650589

- Holl docynnau'r Loteri Genedlaethol
- Cyflenwyr bwyd anifeiliaid - 'bulk' a rhydd - y rhataf yn lleol!
- Nwyddau groser, alcohol, cardiaid MANWEB
- 'Paypoint' ar gyfer talu bob math o filiau

GWASANAETH LLEOL AR GYFER

PARTÏON • PRIODASAU • PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU ...

**RHOSTIO
MOCHYN**



AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partïon rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

Gymuned nos Wener, 15 Mawrth. Gwnaed elw sylweddol o £240 tuag at drefnu trip ym mis Mehefin. POB DYMUINIAD DA. Dymunir bob hapusrwydd i Dylan Pierce Williams, Bryn Rhydd Mawr a

Catrin ar achlysur eu priodas. Y mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Llandegfan, Ynys Môn. ADREF O'R YSBYTY. Da deall fod Mr Ken Mowll a Mrs Pat Larsen yn well wedi eu harhosiad yn Ysbyty Gwynedd.

Cof Anghygoel Nain

Yn y rhifyn diwethaf talwyd teyrnged annwyl i Mrs Annie Williams, Meillionydd gan ei hwyres, Anwen. Mae meddwl am rywun wedi byw dros gan mlynedd, wedi blasu tair canrif ac wedi profi holl ddigwyddiadau hanesyddol a chwyldroadol y ganrif ddiwethaf – a hynny heb ballu dim ar y cof – bron yn anghygoel. Ond felly'n wir fu hanes Annie Williams.

Diwrnod Golchi

Mae'n ddiwrnod golchi yn tŷ ni
Ac O! mae acw lanast;
Does acw drefn yn wir ar ddim
Ers pan y cawsom ffreuast.
Mae'r sosban fawr a'r ffedog fras
Yn brawf o ddiwrnod golchi,
A'r golchwr sinc a'r celwrn mawr
Yn dweud fod mam amdani.

Ond tymer flin fydd ar ein mam
Bob tro y bydd yn golchi.
Nis gwyddom pam, ond dyma'r modd
Bydd arnom ni yn gweiddi.
'Rhed Jên am ddŵr i ffynnon Cwm,
A gwylia na wnei chwarae.
Dos dithau Dic ar frys i'r siop
I brynu'r Sunlight gorau;
A chofia am yr Hudson soap
A starts o'r enw Coleman,
A soda pur a'r Reckit Blue
A gwylia golli'r arian!

Oddeutu naw bydd mam mewn hwy
Yn rhwbio ac yn gwasgu;
A'r ffedog fras fel cadach llawr
Yn wlyb dan bwys y pannu.
Ust, dyna gnoch! 'Pwy sy' 'na, Jên?'
'Grace Jones o Dyddyn Caled.'
'O dewch i mewn, mae'n unarddeg,
Mae'n amser cael cwpaned.'
Mae'n rhaid yn awr i'r sosban fach
Roi lle i'r annwyl Forgan;
Ac yn y man ceir te a thost,
Ond sgwrs sy'n well na'r cyfan.

O'r annwyl fawr! Mae'n un o'r gloch
Cyn gorffen y dŵr cynta'
'Dydd na, Grace Jones. O brysia Jên!
Daw'n nos cyn y gorffena.'
Fe dorchir llewys, chwythu'r tân
A rhuthir gyda dwndwr,
A'r dillad sydd, drueiniaid bach,
Yn gwichian dan y golchwr.

'Mae'n canu pump, fy mam,' medd Jên
'Fe ddaw fy nhad o'r chwarae.'
'O cuddia rai o'r pentwr du
I gadw'r dad yn dawel.'
Ar hyn i mewn i'r tŷ y daeth
A golwg sarrug arno
Ac meddai ef mewn goslef gas,
'Fel hyn mae yma eto?'
'Yr hen Grace Jones a'i thafod hir
A ddaeth i mewn i'm rhwystro;
Pe buasai hi yn cadw draw,
Fel hyn ni fuasai, Guto.'

'Wel dyma nghyngor i ti, Ann,
Bob troi y byddi'n golchi
Rho'r llechen hon uwchben y drws
Ac ysgrienna arni:
'Mae'n ddiwrnod golchi yn tŷ ni,
Na ddeled neb i'm rhwystro.
Yr ydwyf yn dywedyd hyn
Ar bwys awdurdod Guto.'
Ar ddiwrnod golchi ferched bach
Wel golchwch yn ddi-fflino.
Ac ni fydd gwag ar ruddiau neb
A gwen ar wyneb Guto.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CYNGOR CYMUNED. Yn y cyfarfod ar 5 Mawrth, adroddwyd fod Heddlu Gogledd Cymru wedi atal 10 person yn gor-yrru trwy'r pentref. Hefyd roedd yr Heddlu o blaid tawelu'r traffig trwy'r pentref.

Mae'r Cyngor yn dal i bwysu ar Gyngor Gwynedd i gadw at eu haddewid i godi'r arwydd 'Dim gemau pêl' yn Stad Bryn y Gof.

Trefnir fod y sedd goffa, yr hysbysfwrdd a'r lloches i deithwyr bws yn cael eu trin rhag difrod gan y tywydd.

Disgwylir ateb gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â phaentio llinell wen ddwbl yng nghanol y ffordd ar Bencefn. Gan fod uchder y tawelyddion traffig ger Gallt y Sil yn fwy effeithiol na'r rhai yng Nghaeathro, mae'r Adran Prifffyrdd am eddych ar y sefyllfa y mis nesaf.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Dr Helen, Maes y Coed ac i Emily Huws, Tyddyn Llwyni – y ddwy wedi dathlu pen-blwyddi go arbennig yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLWN â Mair a Beryl, Tŷ Gwyn, a'r teulu ar golli mam, Cassie Hughes, ym mis Chwefror. Hefyd Idris Jones, Cryd yr Awel, Rhosbach ar golli ei chwaer yn hwy ym mis Chwefror. Hefyd Glyn Evans ar farwolaeth ei frawd yn yr un mis.


GWASANAETHAU'R CAPEL. Bydd yr Ysgol Sul am 11.00 bob bore Sul ac eithrio gwyliau'r Pasg. PLANT CHERNOBYL. Mae llawer ohonom yn dra chyfarwydd â Terry McDavid yn gyrru ei fan goch rhwng Gwersyll Glangwna a'r Waunfawr, hefo'i wên o glust i glust. Ond, faint ohonoch chi sy'n gwybod bod Terry a'i wraig, Menna, yn weithgar gyda chwaneg lleol o Gyswllt Bywydau Plant (Chernobyl)?

Ym mis Chwefror bu merch ifanc o Belarus (beth oedd y sgôr pêl-droed?) yn aros hefo nhw yn y Waunfawr am fis. Hefyd mae Terry yn trefnu ymdrechion i godi arian. Bu'n llwyddiannus yn recriwtio tri theulu arall i ddarparu seibiant a gwyliau i blant o Belarus. Pe bai unrhyw un arall yn awyddus i wybod mwy – cynnig llety, codi arian, ayyb, gellir cysylltu â Terry neu Menna, Lloches, Waunfawr ar (01286) 650168.

SUL Y PASG. Am 11.00 fore Sul y Pasg bydd plant y fro yn ymgasglu gyda'u rhieni ym maes parcio Tafarn Bryngwna, cyn mynd ymlaen i Helfa Wyau Pasg. Yn hwyrach, tua 12.00 mae Gareth Griffiths wedi trefnu gêm bêl-droed arall yn erbyn y Waunfawr. Cofiwch eu cefnogi – ar y cae, wrth ochr y cae, ac wedyn yn Nhafarn Bryngwna.

TYNFA MISOL. Yr enillwyr am fis Mawrth oedd: £40: (87) Sheila Liptrot, Lynn Lea, Rhosbach; £25: (50) Tony ac Eilian Griffiths, Anedd; £15: (72) T. Evans, Plas Treflan; £5: (66) S. Hughes, 10 Tai Glangwna.

TEACHERSFIELD. Diolch i Teachersfield (+ 'Sticky Fingers'), Enid ac Ifan a Norman Doeth am gynnis adloniant, canu a dawnsio yng Nghlwb Glangwna er mwyn codi arian ar gyfer y Ganolfan.



Catrin Evison

RYGBI GENETHOD. Roedd Catrin Evison, Cae Hopsyn, Rhosbach yn un o chwe geneth o Dîm Rygbi Genethod Caernarfon yn nhîm Gogledd Cymru yn erbyn timau'r De a'r Gorllewin, er mwyn dewis carfan Cymru. Fel canlyniad mae hi wedi'i dewis i chwarae ar yr asgell chwith yn nhîm Cymru o dan 16 oed yn Nhreforus ar 29 Mawrth.

Hefyd diolch i Gwmni Ystadau Glangwna, Tafarn Bryngwna a Garej Cae Stanley am noddi'r noson. Cafwyd amser braf!

GWARIANT Y CYNGOR. Diolch i Gyngor Gwynedd am ail-wynebu'r pafin ym Mryn y Gof – gwariant ar derfyn y flwyddyn ariannol, mae'n siwr.

PWYLLGOR CODI ARIAN I'R GANOLFAN. Bydd cyfarfod o'r Pwyllgor ar nos Fawrth, 23 Ebrill am 7.00 yh. yn Ystafell y Bwrdd, Garej Gwalia. Erbyn hyn mae'r is-gontractau ar gyfer y gwaith trydanol, gwres canolog, plymio, toiled yr anabl, llawr y brif neuadd ac insiwleiddio'r to wedi'u gosod. Felly mae 'na wir angen codi ychwaneg o arian.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy


R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846



**GWYNANT
PIERCE**

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu **Caernarfon**

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259



Rhai o blant Ysgol Gwaun Gynfi yn eu gwisgoedd Cymreig ar Fawrth y cyntaf.

DYMUNWN wellhad buan i Mrs J. Goldsworthy sydd wedi bod yn Ysbyty Llandudno yn ddiweddar. Mae erbyn hyn yng nghartref ei merch yng Nghonwy. Gobeithio y cawn ei gweld adref yn fuan.

DYDD GWEDDI CHWIORYDD Y BYD. Cynhaliwyd cyfarfod i ddathlu'r Dydd Gweddi yn Festri Ebeneser bawn Gwener, Mawrth y cyntaf. Cafwyd cynrychiolaeth o Eglwys Llandinorwig, Ebeneser, Cefnywaun, Libanus a Sardis Dinorwig. Chwiorydd Romania oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth eleni ac roedd y testun, sef 'Her i Gymodi' yn un amserol iawn. Casglwyd £25.29 at yr achos.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Lun, 28 Ionawr cafwyd sgwrs gan Mr Jenkin M. Griffith, Bethel. Ei destun oedd 'Rhai o feirdd Sir Aberteifi' a chafwyd awr ddifyr iawn yn ei gwmni tra bu'n sôn am rai o brifeirdd a beirdd gwlad yr ardal. Dyma'i fro enedigol ef wrth gwrs, a dangosodd adnabyddiaeth lwyr o'i bwnc. Diolchwyd iddo gan y Parch John Pritchard. **MERCHED Y WAWR.** Nos Lun, 21 Ionawr croesawyd Jean Parc Jones atom. Bu'n sôn am ei hymweliad â Phatagonia a thrwy gyfrwng sleidiau a sgwrs, cawsom gip ar y wlad arbennig hon - ei golygfeydd, ei hanes diddorol, ei chapel i a'i phobl. Cafwyd noson ddifyr ac adeiladol dros ben a diolchwyd iddi gan y Llywydd, Marian Williams.

Nos Lun, 18 Chwefror cafwyd cwmni Mr Gwyn Roberts o Hufenfa De Arfon. Cyflwynodd wybodaeth am yr Hufenfa trwy gyfrwng ffilm yn dangos yr holl broses o wneud caws. Daeth ag engreiffiau o gaws gydag ef a chafodd yr aelodau brofi peth ohono ar y diwedd! Diolchwyd iddo gan Iona Richards.

DYMUNA Doris Owen, 6 Pentre Helen ddiolch i'w theulu, ei

ffrindiau a'i chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegionn a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad a'i phen-blwydd yn 65 oed. Hefyd, diolch yn arbennig i enethod Cymorth Cartref am eu anrheg ymddeoliad.

DYMUNA Mrs Alwen Jones, Alwyn a David, 12 Rhydfadog ddiolch yn ddiffuant i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a'r cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl. Hefyd i'r Parch Olaf Davies a'r Parch Ifor Lloyd Williams am eu gwasanaeth ddydd yr angladd. Hefyd i Miss Mair Rees Jones, yr organyddes.

DIOLCH. Dymuna rhieni'r plant a oedd yn cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn ddiweddar ddiolch i Elfed Morgan Morris am y gwaith arbennig mae wedi ei wneud gyda'r plant ers misoedd bellach. Hebddot ti, Elfed, ni fyddai plant Deiniolen yn cael cyfle i ddangos eu doniau ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd. Diolch o galon.

Carem hefyd ddymuno pob lwc i Ffion Medi Jones, Kimberley Owen a'r Parti Persain yn Eisteddfod y Sir.

LLONGYFARCHIADAU i Parti Persain a enillodd y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth Parti Unsain i adrannau pentref yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. I Ffion Medi Jones am ennill y wobwr gyntaf yn yr Unawd Cerdd Dant dan 12 oed ac am ddod yn drydydd yn yr Unawd dan 12 oed.

Llongyfarchiadau hefyd i Kimberley Ann Owen am ddod yn ail yn y gystadleuaeth Unawd 8-10. Fe'u hyfforddwyd hwy oll gan Elfed Morgan Morris.

EGLWYS CRIST LLANDINORWIG Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas Cyfeillion Eglwys Crist nos Lun, 4 Mawrth. Dathlwyd

O Eisteddfod Cylch yr Urdd



Buddugwyr parti i adrannau pentref



Ffion Medi Jones, Ennillydd yr Unawd Cerdd-Dant.

dydd Gŵyl Dewi Sant trwy gael swper blasus wedi ei baratoi gan y gwagedd. Y siaradwr gwadd oedd cyn-Gurad y plwyf, y Parchedig John Gareth Parry, a siaradodd yn amserol am Ddewi Sant ac 'Am y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch'. Yn dilyn cyflwynodd John Gareth Parry anrheg i Miss Jean Moeller ar ei hymadawiad â'r plwyf. Diolchwyd iddi am ei chefnogaeth i'r Eglwys ac i ardal Deiniolen dros y blynyddoedd.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, 3 Ebrill am saith o'r gloch. Y siaradwr gwadd fydd y Parchedig Tegid Roberts. Bydd croeso cynnes i bawb.

Mae cyfarfodydd y Grawys yn cael eu cynnal yn wythnosol eleni eto. Y themal yw Seintiau. Eisoes yr ydym wedi croesawu Yr Esgob Saunders a Mr Derec Jones atom i'r plwyf. Gwerthfawrogn y gwasanaethau hyn yn fawr iawn.

YSGOL GWAUN GYNFI. Triplau y Tymor: Bu dosbarth Mr ab Elwyn yn ymweld â'r Amgueddfa Lechi ac Ysbyty'r Chwarel ddydd Gwener, 25 Chwefror a dosbarthiadau Mr Parry a Mrs Down ar ddydd Llun, 26 Chwefror.

Bu plant CA2 i gyd yn gweld cynhyrchiad Y Crinod (*The Twits*) yn Theatr Gwynedd dydd Gwener, 15 Mawrth.

Cynhaliwyd Noson o Ddawns yn Theatr Gwynedd nos Fercher, 20 Mawrth gyda phlant CA2 i gyd yn cymryd rhan mewn dawnsfeydd Gwerin, Llinell a 'Rock 'n Roll'.

Tŷ Gobaith / Dydd Gŵyl Dewi: Cynhaliwyd gwasanaeth dydd Gŵyl Dewi yn yr ysgol ar ddydd Gwener, 1 Mawrth. Roedd llawer o'r plant wedi gwisgo mewn gwisgoedd traddodiadol Cymreig a chasglwyd £115.82 at yr elusen Tŷ Gobaith.

Tynnu Lluniau: Bu Mr J.C. Davies



Kimberley Ann Owen a ddaeth yn ail ar yr Unawd 8-10 oed.

yn yr ysgol ar ddydd Mawrth, 19 Mawrth yn tynnu lluniau'r plant.

Syr Kyffin Williams: Braint oedd cael ymweliad gan artist profiadol i siarad gyda'r plant hynaf. Cawsant fwynhad yn gwylio Mr Williams yn dangos sut i wneud lluniau.

Noson Celt: Mae noswaith wedi ei threfnu ar nos Sadwrn, 13 Ebrill am 7 o'r gloch yng Nglan Gwna, Caeathro. Bu noson o'i bath yn llwyddiannus dros ben ym mis Tachwedd 2000 a gobeithir y bydd hon yr un mor llwyddiannus. Mae'r tocynnau ar werth am £6 yr un ac i'w cael ar y rhifau canlynol: Gwynfor: 870702; Violet: 871134; Yr Ysgol: 870687. Croeso cynnes i bawb.

Gwyliau Pasg: Mawrth 22 - Ebrill 9. Bydd yr ysgol yn ail-agor i'r plant ar ddydd Mercher, 10 Ebrill. Blwyddyn 6 i Ysgol Brynrefail: Ymwelodd plant Blwyddyn 6 ag Ysgol Brynrefail ddydd Llun, 18 Mawrth. Eu hymweliad cyntaf yw hwn a bydd cyfle arall i ymweld am y diwrnod cyn diwedd tymor yr haf.

Marathon Llundain: Bydd Mr ab Elwyn yn rhedeg yn y Marathon eto eleni ac mae am godi arian tuag at Tŷ Gobaith ac Ysgol Gwaun Gynfi. Buasem yn ddiolchgar iawn petai pawb yn ei noddi - ffurflenni noddï ar gael gan y plant neu o'r ysgol.

CYMANFA ANNIBYNWYR CYLCH CWM-Y-GLO.


Cynhelir y Gymanfa eleni yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen bawn Sul, 21 Ebrill am 2.00 o'r gloch yn unig. Arweinydd y Gân fydd Annette Bryn Parri a'r organydd fydd John Jones. Cenir emynau o'r llyfr *Caneuon Ffydd*. Gwneir casgliad tuag at yr Elusen 'Action Aid'. Fe drefnir bws i gychwyn o Lanberis, Cwm-y-glo ac yna Penisarwaun. Croeso cynnes i bawb.

**CWMNI ADFYWIO DEINIOLLEN
CYFARFOD BLYNYDDOL
EBRILL 10ed am 7 o'r gloch
Tŷ Pawb
CROESO I BAWB**

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

A Oes Rhinweddau'n y Dail?



Diffinir dafad yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru, t.878 fel y llwddon neu'r cilfilyn gwlanog, (*dinwedd a heidiol*) a gedwir i bori ar fynydd-dir, a.y.b. a'i fagu er mwyn ei gig a'i gnu. Gall dafad olygu hefyd aelod o gorlan eglwysig tan ofal bugail ysbrydol. Ond y mae ar gael hefyd ddafad hollol wahanol, sy'n fath o dwf megis plodyn sych, (*mwyn neu lai ysbyngaid*), ar wyneb y croen. Ceir yn ogystal math o chwarren sy'n bodoli ar draed defaid a gwartheg.

Y mis yma rydw i am fwrw ychydig amser hefo'r cnapiau hyll rheini, sef tyfiant clystyrog, neu ar adegau lwmpiau unigol, sy'n cartrefu o dro i'w gilydd ar grwyn dynol. Fe'u ceir ran amlaf ar y dwylo a'r coesau, ond gallent fodoli'n ogystal yr un mor rhwydd ar rannau eraill y croff. Achosir y cnapiau dan sylw gan feirws, sef y *feirws papilloma*, sy'n peri i'r celloedd crwynol amlhau, a gor-dyfu. Mae'r feirws yn un heintus ac yn cael mynediad i'r corff drwy doriad agored mewn croen dynol. Bydd eich meddyg lleol a'ch fferylllydd yn eich rhoi ar

ben ffordd ac yn eich cyfarwyddo ymhellach sut i gael gwared o'r defaid crwynol.

Ond y mae ar gael hen feddyginiaethau a gadwyd ar lafar ers cenedlaethau ac wedi bodoli yma yng Nghymru ers canrifoedd lawer. Nid oes yr un enaid byw yn gwybod i sicrwydd pa mor hen mewn gwirionedd ydyw'r hen feddyginiaethau hyn. Y maent wedi eu trosglwyddo o un teulu i'r llall, o un fro Gymreig i un arall, a hynny ar dafod leferydd. Dyma un feddyginiaeth. Digwydd yr hanes tua diwedd y pumdegau, a hynny yn yr Ugeinfed Ganrif.

Roedd 'na grwt sydd, erbyn hyn, yn gweithio fel athro yn Ysgol Uwchradd Dyffryn Conwy, Llanrwst, â defaid crwynol yn un clwstwr ar ei ddwylo. Beth wnaeth ei daid, a oedd yn chwarelwr, ond plicio haenau uchaf llysiau dail ceiniog, sydd i'w cael yn tyfu ar furiau cerrig a phonciau pridd, ar erchwyn lonydd ac yn blanhigyn lled gyffredin. Gosododd Mistar Tom Wiliams weddillion y dail dros bob

dafaden. Fe'u gadawyd ar y defaid am ddyddiau lawer a, maes o law, dechreuodd pob dafaden dduo a disgyn oddi ar y croen. Mewn pentref gwledig ar arfordir gogledd-orllewin Meirionnydd y digwyddodd hyn a, gan fod y diweddar Tom Wiliams yn gweithio yn un o chwareli llechi Blaenau Ffestiniog, tybed yn wir iddo glywed yno am rinweddau llysiau dail ceiniog. Dyma gloi am y tro gyda'r ymholiad a ydyw'r feddyginiaeth a nodwyd uchod yn bodoli yma yn Arfon yn y bröydd chwarelyddol? Ys gwn i?

Llithriad

Yn 'Aur yr eithin' yn y rhifyn diwethaf o *Eco'r Wyddfa* defnyddiwyd *Tyddyn* yn lle Cae tra'n cyfeirio at *Gae Dicwm*, plwyf Llanddeiniolen. Derbynier fy ymddiheuriadau am y gwall. *Cae Dicwm* oedd dan sylw. Ym mhlwyf Penmorfa y mae *Tyddyn deucwm uchaf ac isaf*. Yr wyf am yr ail wsnos yn olynol Mistar Golygydd annwyl, yn crwydro o gwmpas mewn sach liain a lludw.

Dafydd Guto

Lôn Las Peris

Cyfarfod Cyhoeddus
Yn Neuadd Ysgol Gymuned
Cwm-y-glo

nos Fawrth, 23 Ebrill
am 7.00 o'r gloch

Dewch i gynnig syniadau am
ymestyn y llwybr beicio o
Nantperis i Lanberis ac
ymlaen i Lanrug

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202


TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

W. G. Roberts (Wil Korea)
676741



BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

Rygarug

Cynhaliwyd noson o Gawl a Chân Gymreig yn Ysgol Gynradd Penisarwaun ar 22 Mawrth i godi arian at y clwb celfyddydau perfformio lleol – Rygarug.

Cafwyd gwledd o noson gydag amrywiaeth eang iawn o berfformiadau gan aelodau Rygarug ac hefyd Côr Eryri. Roedd unawdwyr o Rygarug yn canu cerdd dant, chwarae'r delyn a'r corn yn ogystal â grwp dawnsio, drama a chôr. Mae Côr Eryri wedi mynd o nerth i nerth ers ei sefydlu yn 1999 ac wedi

dyblu yn ei nifer aelodau. Eisteddfod y Ffôr fydd sialens nesaf y côr ac wedyn cyngerdd yn Betws yn Rhos.

Cofiwch bod Côr Eryri yn falch iawn o'r cyfle i berfformio at achosion ac achlysuron lleol.

Diolch i Dyfan Roberts am arwain y noson heb gormod o jôcs gwael! Mae dyled fawr i Sian Wheway, sy'n bencampwraig ar rannu ei hamser a'i brwdfrydedd rhwng arwain Côr Eryri a chlwb Rygarug – yn llwyddiannus!



Plant Rygarug yn perfformio



Côr Eryri




Y Côr a'r plant yn rhannu'r llyfrau

Angen Gwybodaeth



A oes rhywun o ddarllenwyr yr Eco all roi gwybodaeth i ni am y llun yma? Mae' amlwg wedi ei dynnu ar y ddôl yn Llanberis ac mae'n debygol o fod yn llun o'r Carnifal. Ond pryd gafodd ei dynnu? Rydym yn gwybod mai Edwina Lloyd Jones, 66 Stryd Fawr Llanberis ydi'r 'llongwr' ar y chwith. Ydych chi'n adnabod rhywun arall? Cysylltwch â'r golygydd os oes gennych unrhyw wybodaeth.

CROESAIR EBRILL



22 ar draws ydi pob un o'r geiriau sydd heb gliwiau iddynt.

Ar Draws

- 1 Cosi yn wirion wrth gymodi (6)
- 5 Y rhai sy'n ymlusgo hyd fyrddau Paris? (6)
- 10 Ail berson unigol rhagenw personol dyblyg! (4)
- 11 Yn ffyrnig o ansawdd iaith Gymraeg radio Cymru! (3)
- 13 Atgyweirio dau newydd? (8)
- 14 Cydweithio (3-5)
- 16 Dadwneud cynnwys pennod atodol y llyfr (5)
- 25 Ceulo (6)
- 26 Preswylfeydd (3)
- 27 Defnydd sy'n ffurfio organau (6)
- 28 Awdl deg yn curo? (6)
- 29 Hudo o ardd Eden unwaith! (4)
- 30 Gair megis gair ac nid megis megis!!! (5)
- 34 Bagiau bach i gario arian (8)
- 36 Di-ofn (8)
- 38 Dyrchafiad (8)
- 40 Y peth caletaf yng nghyfansoddiad yr Henaduriaeth (3)
- 41 Ysglyfaeth (4)
- 43 Peth o natur awyr i olcuo neu dwymo (3)
- 44 Tlysau o hanner y pwysau ar ôl 43 ar draws (6)

I Lawr

- 1 Cornchwilog (7)
- 2 Disymwth (5)
- 4 Meibion Dyffryn Peris a'r Penrhyn? (5)
- 6 Hen gorff marw o Lanbabo... (3)
- 7 ... ac ar ôl hynny ... (5)
- 8 ... mae'n gorffen ... (5)
- 9 ... oherwydd ... (5)
- 15 ... mae'n rhaid gwneud yn saff (7)
- 18 Pobl sy'n methu gweld (7)
- 20 Nid yw hwn yn byw yn ei wlad ei hun (5)
- 21 Nionyn o'r de (5)
- 23 Llwr (5)
- 24 Yn rhan o eiddo echdoe, ond ar ôl hynny (3)
- 25 Cadachau mewn cawell o gorsen (3)
- 31 Gwasgaru (7)
- 32 Diwrnod cyntaf mis neu dymor (5)
- 34 Mwgwd i'r gog ar ddiwedd Ebrill (5)
- 35 Yn fwy gwâr (5)
- 36 Dod ag wy, fel mae'r iar yn awgrymu! (5)
- 37 Ystordy fel yr un ym Meddgelert (5)
- 39 Nifer benywaidd mewn parawys i ddynion (3)

Drwy gamddealltwriaeth fe nodwyd yn yr Eco ym mis Mawrth fod angen gyrru'r croeseiriau i mi erbyn yr llog. Hyn, mae'n debyg, sy'n gyfrifol am y ffaith fod nifer o'r selogion wedi methu â chystadlu, ac mai 16 yn unig a ddaeth i law.

O'r rhai hynny, dim ond saith wnaeth ddarganfod mai cnwau llysiau a gyfeirir atynt, er fod y mwyafrif a wnaeth hynny wedi cael yr enwau yn gywir. Ceridwen Williams, Llanrug; Jean Hughes-Jones a Catherine A. Jones, Rhiw; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog a Nansi Davics, Rhuthun oedd y saith ac, o'u plith, enw Catherine A. Jones, Tŷ

Capel, Pencaerau, Rhiw, Pwllheli ddaeth o'r het. £5 a llongyfarchion i chi.

Ar ôl darfod croesair Ebrill gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE erbyn Ebrill 22.



RHODDION

£20: Mrs Gwyneth Beswick, West Derby.

£16: Mr P. W. Williams, Borrowdale Road, Corby.

£11: Mr R. W. Thomas, Blaenau Ffestiniog.

£10: Cledwyn ac Elen Jones, 4 Hafan Elan, Llanrug; Mrs Charlotte Hughes, 19 Gernant, Braichmelyn, Bethesda er cof am John a Catrin Williams, Bwlch, Cwm-y-glo; Alwyn Owen a'r teulu, 3 Stryd yr Wyddfa, Llanberis; R. L. Roberts, Northampton; Olwen Ebrell, Coventry; Dr R. Fraser Williams, Sale, Cheshire.

£7: Mrs G. McCarthy, Chidwal.

£6: Helen Francis, Higher Kinnerton; Mr J. Evans Hughes, Leicester; Mr Meurig Owen, Lewisham.

£5: Robert a Bethan, Gwernydd, Waunfawr; Mrs Gwyneth Jones, 25 Bryn Tirion, Penisarwaun; Mrs Lily Horman, Venice, Llanrug; Sharon a Lionel Wooley, Penisarwaun; Haf Thomas, Buarthau, Llanrug; Mr Albert Parry, 45 Pentre Helen,

Deiniolen; Mrs Doris Owen, 6 Pentre Helen, Deiniolen; Mrs Alwen Jones, Alwyn a David, 12 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs L.P. Lee, Morfa Bychan; Mrs Meira Pitts, 14 Cae Sarn, Groeslon; Mrs Annie Mary Evans, Plas Pengwaith (Bron Eifion, 28 Stryd Goodman, Llanberis gynt); Mrs Olwen Owen a'r teulu, 15 Stryd Siarlot, Llanberis; Mrs Bessie Williams, Bishop Auckland; Eleri Griffiths, Timperley; Mrs Jenny Williams, Morfa Bychan; Mr a Mrs Wilbert Williams, Brynrefail; Mrs Maggie Lewis, Madryn House, Llanrug.

£3: Mrs M. Lewis, 33 Hafod Oleu, Deiniolen; Iola Bryn Jones, Llwydfryn, Deiniolen; Miss M. Griffiths, Caerhun, Bangor; Mair Parry, Gorwel, Llanllyfni; Mrs Alona Jones, Prestatyn; Dr W. H. Munro, Corby.

£1: Mr Goronwy Owen, Porthcawl; Mr Ronnie Williams, Aylestone; Alun Williams, Waunfawr.

Rhodd i Eco'r Wyddfa gan Mrs A Sidebotham, Whaley Bridge, Stockport.

CAB GWYNEDD & DE YNYS MÔN

Bangor-Caernarfon-Dolgellau-Pwllheli

**cyngor
ar
bopeth**

Rydym angen

GWIRFODDOLWYR

Ydych chi'n ddibynadwy ac yn gallu rhoi chwe awr o'ch amser bob wythnos? Nid oes angen profiad na sgiliau arbennig, cewch hyfforddiant llawn.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch:

01286 677013



YN YR ARDD!

WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMBOL

PRYD I BAWB

**Bwffe blasus o safon
at bob achlysur**

CINIO BUSNES

BEDYDD

PEN-BLWYDD

TE ANGLADDAU

CERID MACKINNON

(01286) 673190



CHWARAEON

Oes Wahanol

Noson dartiau yw nos Lun i mi, ond yn ddiweddar roeddwn yn teimlo yn 'hen ddyn' y tîm - a gwir yw hynny gan mai fi yw'r hynaf, o sawl blwyddyn. Dangoswyd hyn yn glir wrth edrych ar raglen gan S4C ar Wyn Davies, i ddathlu ei ben-blwydd. Roedd y rhaglen ymlaen yn y cefndir a sylw llawer arni. Nid oedd mwyafriaf y tîm wedi'u geni pan oedd Wyn yn arwr ar Barc St.James yn Newcastle, ac yna yn Old Trafford.

Roedd y cwestiynau'n llifo wrth edrych ar y lluniau du a gwyn o Wyn yn taranu peniad ar ôl peniad i'r rhwyd.

'Welsoch chi Wyn yn chwarae?' 'Do, unwaith. Cymru yn erbyn yr Alban yn Wrecsam. Rheolwr Cymru wedi gwneud dewis anhygoel - chwarae tri 'centre forward'. Y tri oedd Wyn, Ron Davies a John Toshack - tri peniwr anhygoel!'


Roedd y dacteg yn amlwg, pêl hir i'r canol gan anelu at y tri 'cawr'. Gweithiodd y dacteg yn weddol, gan i Gymru sgorio dair gwaith. Yn anffodus, rhwydodd yr Albanwyr bum gwaith. Gyda llaw, yn y bencampwriaeth Brydeinig oedd y gêm honno, gyda timau yn chwilio am gemau 'cynhesu' ar gyfer gwahanol gystadlaethau. Braf fuasai gweld yr hen bencampwriaeth boblogaidd yn dychwelyd.

Gyda Stadiwm, y Mileniwm buasai'n ffordd i ddod ac arian derbyniol i'r gêm yng Nghymru. Byddai'n gaffaeliad mawr i'n Cynghrair Genedlaethol, sy'n datblygu o dymor i dymor, ond yn methu cyrraedd ei photensial oherwydd diffyg cefnogaeth ariannol.

Dau beth arall o'r rhaglen: daeth gwên i wyneb rhai pan ddychwclodd Wyn i hen gae Dciniolen, sydd erbyn heddiw yn frwynog. Clod i ddycnwch y ffyddloniaid yw gallu cyfeirio at adnoddau presennol y clwb yma.

Yr ail beth oedd cymharu cyfnodau a rhyfeddol oedd gweld Wyn yn gweithio yn y becws, ac ambell 'joban' arall. I'r chwaraewr rhyngwladol modern, anaml mae'n rhaid iddynt weithio pan ddaw eu gyrfa i ben. Daw arian ffri o waith teledu, radio neu'r 'sgwrsio' wedi cinio. Cyfeiriodd nifer oedd yn gwyllo at y ffaith mai 'Cofi' go iawn oedd Wyn, ac yn sicr mae'n glod iddo nad yw wedi newid fawr. Ie, ar sawl lefel y 'Mighty Wyn' oedd y pen coch o Faes Barcer.

Y Pump Heini



Tim gymnasteg Ysgol Brynrefail yw pencampwyr Eryri eleni. Roedd pump yn y tîm - y brawd a chwaer: Mathew a Catherine Pike, a Nia Wakeham o Lanberis, Jenny Hamer o Lanrug ac Anest Eifion o Benisarwaun. Yn dilyn y llwyddiant rhanbarthol, ymlaen i Gaerdydd (ble arall?) ar gyfer Pencampwriaeth

Cymru.

Y tri a deithiodd i'r de oedd Mathew, Catherine a Nia. Wedi cystadlu o safon uchel cipiodd Mathew yr ail safle. Mae hyn yn ei alluogi i gystadlu ym Mhencampwriaeth Prydain yn Stoke on Trent. O feddwl, onid yw y gair 'Pike' yn gweddu i rywun yn ymwneud â gymnasteg.

Amryddawn...!

Un o uchafbwyntiau y blynyddoedd diwethaf oedd perfformiad Daley Thompson yn cipio medal aur Olympaidd. Yr hyn oedd yn rhyfeddol oedd ei feistrolaeth ar gynifer o gampau, ar y trac ac yn y cystadlaethau maes. Yr oedd ei bersonoliaeth hamddenol - ond cystadluol - yn arf bwysig. Yn cin hardal ni, mae merch sy'n ymddiddori - a llwyddo - mewn sawl camp.

Pymtheg oed yw Catrin Evison o Gaeathro, ac mae o fewn cyrraedd ennill cap rygbi i Gymru. Ie, mae rygbi merched, fel pêl-droed merched, yn un o'r campau sy'n ffynnu yn rhyfeddol ar hyn o bryd. Yn Ysgol Syr Hugh Owen mae Catrin yn ddisgybl a cymerodd at y gêm rhyw 18 mis yn ôl. Yn amlwg mae'n elwa o draddodiad

cryf o rygbi yn yr ysgol, a caiff ddigon o gyfle i ymarfer gyda thimau'r ysgol. Mae'n aelod hefyd o dim Caernarfon, a bu'r nosweithiau hyfforddi yno dan arweiniad Peter Doughty yn gaffaeliad. Beth am y daith i'r brig?

Dewiswyd nifer o enethod clwb Caernarfon ar gyfer treialon Gogledd Cymru yn Ninbych. Yna tîm y Gogledd yn herio timau y Gorllewin a De Cymru mewn twrnament yn Llanfair ym Muallt. Oddi yno dewiswyd 33 ar gyfer carfan estynedig Cymru. Oherwydd ei pherfformiadau cyson mae Catrin wedi'i dewis i chwarae mewn gêm 'ymarfer' yn Nhreforus. Mae un arall o glwb Caernarfon hefyd yn y garfan. Ar yr asgell chwith y bydd Catrin yn chwarae ac, oherwydd dull agored clwb Caernarfon o chwarae, caiff ddigon o gyfle i fynd am y llinell!

Yn ystod gwyliau'r haf fe fydd rhaid teithio yn rheolaidd i Gaerdydd (ble arall?) ar gyfer sesiynau ymarfer y garfan! Trwy'r gaeaf mae ei brawd Tom wedi teithio yn rheolaidd i'r brifddinas ar gyfer hyfforddiant criced. Mae o erbyn hyn ar staff Academi Griced Morgannwg.

Ond nid dyna ddiweddd doniau Catrin. Mae wedi

Dilyn Ein Clwb yn Ewrop

Pa glwb am gwpan Ewrop eleni? Man U, Lerpwl neu Lanelli? Ydi, mae'r tîm o'r de yn denu cryn gefnogaeth o'r ardal yma.

Ar gyfer eu gêm yn rownd gyn-derfynol Cwpan Heineken yn erbyn Caerlŷr yn Nottingham, mae nifer yn teithio. Diolch i haelioni clwb Llanelli mae tipyn am fynd. Er mwyn cael digon o gefnogwyr draw, mae tîm y 'sospan' yn talu cost y bws i'r teithwyr.

Beth am i Undeb Rygbi Cymru neu'r Gymdeithas Bêl-droed dalu am fysiau o'r gogledd ar gyfer gemau rhyngwladol, gan eu bod, pob un ohonynt, yng Nghaerdydd erbyn hyn?

cynrychioli timau Gogledd Cymru mewn hoci, tenis ac athletau. Ar lefel Eryri mae'n aelod o garfanau pêl-rwyd a thraws gwlad. O ie, rhywsut yn yr haf darganfyddodd amser i chwarae criced i dîm -15 Bangor yng nghynghrair ieuencid Eryri.

Merch amryddawn iawn, a gall pawb sy'n ei hadnabod dystio i'w phersonoliaeth hwyliog a hollol ddiymhongar. Gobeithio y daw y cap coch iddi, yn goron ar ei hymroddiad.

Mewn Cwmni Da

Ruud van Nistelrooy (ail), Thierry Henry (5ed), Christian Vieri (9fed), Marc Lloyd Williams (15fed), Patrick Kluivert (17fed). Dyna i chwi restr o sgorwyr amlwg led-led Ewrop.

Pob blwyddyn mae'r 'sêr' yma yn ymgiprys am wobr yr Esgid Aur a roddir i'r sawl sy'n gorffen ar frig tabl y sgorwyr. Ie, sylwch, tabl y sgorwyr, nid o reidrwydd y sawl sy'n sgorio mwyaf o goliau o holl gynghreiriau cenedlaethol gwledydd Ewrop.

Hyd tymor 1993-94 dyfarnwyd yr esgid aur i'r prif sgoriwr, a'r 'cnillydd' y tymor hwnnw oedd Dave Taylor o glwb Porthmadog gyda 43 gôl, gyda Andy Cole (Newcastle y pryd hynny) gyda 34 gôl yn ail.

Bu cryn gwyno, a phenderfynwyd fod rhaid graddio y cynghreiriau, gan y tybid ei bod yn haws sgorio yn rhai cynghreiriau nag eraill. Am y rheswm yma ni dderbyniodd Taylor yr esgid aur.

Erbyn hyn y rheolau yw fod 'pwyntiau' y sgorwyr yn cael ei weithio allan drwy luosi eu goliau gyda 2 (yn y prif gynghreiriau), 1.5 (yn y rhai canolradd) ac 1 i'r gwledydd llai - sy'n cynnwys Cymru.

Hyd yn oed gyda'r drefn yma, mae 32 gôl cynghreiriol Marc yn ei roi mewn cwmni da. Mae digon o gemau ar ôl iddo symud i fyny'r tabl. Beth am y trebl eleni Marc? Cynghrair Cymru, Cwpan Cymru a'r Esgid Aur. Dyna beth fuasai'n stori!

BEICS WIL



BEICIAU NEWYDD
AG AIL LAW
• TRWSIO • CYNNAL
• PARTIAU



SIOP AROSFA, WAUNFAWR (01286) 650 723